Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Y Gronfa Gofal Integredig

## Adroddiad Blynyddol 2019–2020

Cefnogi
**Cymru Iachach**
**ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Cynnwys


Rhagair 3

Trosolwg o'r Gronfa Gofal Integredig 4

Buddsoddiad Refeniw y Gronfa 13

Geirfa Mathau o Wasanaethau/Grwpio Thematig 27

Cipolwg ar Werth Cymdeithasol 28

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru 30

Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig 31

Buddsoddiad Cyfalaf y Gronfa 2019–2020 33

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 36

Dysgu gwersi ac edrych ymlaen 38

Proffiliau Rhanbarthol 39

Atodiad (Astudiaethau Achos) 53



OGL © Hawlfraint y Goron 2021


WG40930 ISBN digidol 978-1-80038-774-4

# Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno ail adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar roi'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) ar waith ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg cenedlaethol o'r gronfa yn 2019–2020 ac yn disgrifio sut mae byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi defnyddio cyllid yr ICF i helpu i ddatblygu'r broses o integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Mae'n gipolwg ar yr ICF cyn y gwerthusiad llawn ac annibynnol o'r rhaglen sydd wedi'i gomisiynu'n ddiweddar.

Mae'r ICF bellach yn rhaglen sefydledig sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, integredig i ystod eang o bobl sy'n agored i niwed ledled Cymru. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y gronfa'n gwneud cyfraniad sylweddol i'n helpu ni i gyflawni ein hymrwymiadau yn Cymru Iachach, sy'n ddull allweddol o gyflawni deddfwriaeth drawsnewidiol Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014. Yn bwysig, mae'n helpu i newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gyda phartneriaeth a chydweithredu yn greiddiol iawn iddi.

Drwy brofi ffyrdd newydd o weithio a gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o adnoddau, mae'r ICF yn cefnogi newid yn y system lle darperir gofal yn aml gartref neu'n agos ato. Nid yn unig y mae hyn yn galluogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartref eu hunain a pharhau i fod yn rhan o gymuned, ond mae'n helpu i leihau'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gorau o'r hyn a gyflawnwyd gan yr ICF yn ystod 2019–2020. Mae prosiectau'n amrywio o ran maint a natur ond mae pob un ohonynt yn chwarae eu rhan wrth sicrhau newid er gwell yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i bobl Cymru.

Roedd rhan olaf 2019–2020 wrth gwrs yn gyfnod heriol iawn gan ein bod i gyd yn teimlo, ar lefel bersonol a phroffesiynol, effaith wirioneddol y pandemig COVID-19. Chwaraeodd yr ICF ran eithriadol o bwysig yn yr ymateb cenedlaethol i'r argyfwng gan fod llawer o brosiectau a gwasanaethau wedi'u rhoi ar waith ar raddfa fwy neu wedi'u haddasu i helpu i ymdopi â'r galw digynsail am wasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys amryw o gynlluniau o'r ysbyty i'r cartref, rhyddhau cyflym ac chynlluniau osgoi ysbytai. Aeth y byrddau partneriaeth rhanbarthol ati'n gyflym i ailgyfeirio eu buddsoddiad ICF ar gyfer gwasanaethau cymunedol, offer a darpariaeth cam-i-fyny/i lawr. Chwaraeodd cydlynwyr cymunedol hefyd ran allweddol wrth arwain yr ymateb cymunedol a helpu pobl a oedd ynysig i gael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt, gan gynnwys siopa a chasglu presgripsiynau.

Rydym yn ddiolchgar ac yn falch o'r ffordd anhygoel yr ymatebodd y GIG, staff gofal cymdeithasol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys y trydydd sector, i'r pandemig. Mae cryfder ac ystwythder y byrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ymateb i argyfwng iechyd mawr mewn modd mor gydlynus i'w ganmol. Bydd y misoedd nesaf yn parhau i fod yn her i bob un ohonom, ond drwy'r ICF gallwn sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a bod ganddynt fynediad cyflym ac amserol at wasanaethau iechyd a chymdeithasol o ansawdd uchel.

Rydym yn falch iawn y bydd yr ICF, ac wrth gwrs y Gronfa Trawsnewid, yn parhau am flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022, ac rydym yn buddsoddi £129 miliwn arall yn yr ICF yn 2021–22.

Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn yn galluogi byrddau partneriaeth rhanbarthol i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a sicrhau y gellir cynnal momentwm. Mae gwaith eisoes ar y gweill, sydd i'w gwblhau erbyn yr haf, i gwmpasu a chynllunio unrhyw raglenni ariannu olynol posibl o 2022 ymlaen i gefnogi a hyrwyddo integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach.

Yn ogystal, mae'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn gwneud cynigion ynghylch dyfodol y maes iechyd a gofal cymdeithasol a gweithio integredig. Bydd hyn yn chwarae rhan allweddol wrth lunio cyfeiriad iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru yn y dyfodol. Gwneir penderfyniadau am ddyfodol cyllid partneriaeth rhanbarthol yng nghyd-destun casgliad ymarfer ymgynghori'r Papur Gwyn sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Yn olaf, hoffem gydnabod gwaith rhagorol yr holl fyrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ddarparu'r ICF ac wrth lunio'r adroddiad hwn.

Drwy weithio gyda'n gilydd, mewn partneriaeth, rydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.



**Julie Morgan**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



**Julie James**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

# Trosolwg o'r Gronfa Gofal Integredig

Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn 2014 ac mae'n rhaglen ataliol sydd hefyd yn ceisio integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mae'r rhaglen yn rhoi pobl wrth wraidd eu gofal a'u cymorth drwy ddarparu gwasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni *yr hyn sy'n bwysig iddynt* ac sy'n eu galluogi i fyw eu bywydau eu ffordd eu hunain. I lawer o bobl, mae hynny'n golygu gallu cael gafael ar wasanaethau a chymorth yn y cartref neu'n agos ato yn hytrach nag yn yr ysbyty. Mae hefyd yn golygu gallu cael gafael ar gymorth cyfannol a fydd yn ystyried eu hiechyd, eu gofal ac, mewn rhai achosion, eu hanghenion tai fel pecyn integredig a di-dor. Mae llawer o'n prosiectau ICF wedi galluogi hyn i'r dinasyddion y maent yn eu cefnogi ac wedi rhoi profiad llawer mwy boddhaol iddynt o gael gafael ar y gwasanaethau y mae arnynt eu heisiau a'u hangen.

Yn ogystal â bod y dull hwn yn well i ddinasyddion, mae hefyd wedi helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol cyfyngedig, gan sicrhau bod gwasanaethau mwy acíwt ac arbenigol ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol ar yr ICF i'w gynhyrchu a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi trosolwg cenedlaethol o'r buddsoddiad a wnaed gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn 2019–2020 ac yn rhoi cipolwg ar rai o'r prosiectau a gwasanaethau sydd wedi'u hariannu yn ystod y flwyddyn a'r effeithiau cadarnhaol y maent wedi'u cael ar fywydau pobl.

Er nad yw hwn yn adroddiad gwerthuso, bydd yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i gefnogi'r gwaith o werthuso'r cyllid refeniw'r ICF sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi'i chymryd o gynlluniau refeniw a buddsoddi cyfalaf ICF rhanbarthol ac adroddiadau monitro chwarterol a gyflwynwyd gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol. Mae'r byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r adroddiad hwn ac wedi dilysu data sydd wedi'i gynnwys ynddo.

## Rhagor o wybodaeth am y gronfa

Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a *Cymru Iachach*. Felly, mae amcanion y gronfa yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer integreiddio sef:

- pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- pobl sydd ag anableddau dysgu
- plant ag anghenion cymhleth
- gofalwyr
- plant ar ffiniau gofal

Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi pobl â dementia ac mae'n helpu i gyflawni'r ymrwymiadau yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-22 Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Mae'r ICF yn darparu buddsoddiad refeniw a chyfalaf i sbarduno a galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau iechyd a llesiant y maent am eu cael.

Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol yn yr ICF. Yn 2019–20 cafodd y gronfa hwb ychwanegol o £30 miliwn o refeniw, gan ddod â chyfanswm y cyllid sydd ar gael £124 miliwn:

- Refeniw – £89 miliwn (o'i gymharu â £59 miliwn yn 2018–2019)
- Cyfalaf – £35 miliwn (o'i gymharu â £30 miliwn yn 2018–2019)
- **Cyfanswm – £124 miliwn**

O ran refeniw, targedwyd £30 miliwn ychwanegol at grwpiau blaenoriaeth allweddol gyda £15 miliwn wedi'i dargedu at ddarparu gwasanaethau ataliol i oedolion, a gofalwyr y mae angen gofal a chymorth arnynt, a dyraniad newydd o £15 miliwn i ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth i blant a phlant profiadol gofal ar gyrion gofal a'u teuluoedd.

O'r £15 miliwn i oedolion, ychwanegwyd £10 miliwn at ddyraniad presennol pobl hŷn a'r £5 miliwn arall i'r dyraniad ehangach ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr.

Dangosir dadansoddiad o'r cyllid isod:

| Maes blaenoriaeth o ran Integreiddio | 2018–2019 | 2019–2020 |
|---|---|---|
| Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor | £30M | £40M |
| Pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gofalwyr | £15M | £20M |
| Plant – Ymyrraeth gynnar a chymorth i blant a'u teuluoedd (newydd) | N/A | £15M |
| Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | £3M | £3M |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru | £2M | £2M |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia | £9M | £9M |
| **Cyfanswm** | **£59M** | **£89M** |

Dyrennir cyllid ICF i bob un o'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru, a chaiff ei weinyddu ganddynt, er mwyn sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei ddefnyddio.

Mae pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol wedi ymgysylltu â dinasyddion ac wedi cwblhau asesiad manwl o'r boblogaeth ac wedi datblygu cynllun ardal sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a buddsoddi. Defnyddiwyd y ddwy ddogfen allweddol hyn hefyd i lywio Cynlluniau Buddsoddi ICF rhanbarthol.

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau cenedlaethol ar ffocws a rheolaeth yr ICF cyn i gynlluniau buddsoddi gael eu datblygu a'u cyflwyno. Yn ogystal â'r categori ariannu newydd i gefnogi plant mewn gofal a phlant ar gyrion gofal, gwelodd 2019–20 nifer o newidiadau yn y ffordd y rheolir yr ICF:

## Cynllunio

- er mwyn galluogi rhanbarthau i gynllunio, datblygu, profi a gwerthuso prosiectau dros gyfnod hirach, bydd gofyn am gynlluniau buddsoddi refeniw 2 flynedd yn nodi'r cynlluniau a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cefnogi tan fis Mawrth 2012.

## Gweithio ar lefel ranbarthol

- er mwyn sicrhau dull mwy unedig o ddarparu gwasanaethau o fewn rhanbarthau a helpu i gyflymu'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarthol, roedd disgwyl i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gymryd ymagwedd fwy rhanbarthol tuag at fuddsoddi a chyflawni'r rhaglen ICF, gan hyrwyddo prosiectau sy'n rhychwantu'r holl batrwm daearyddiol rhanbarthol cyfan yn hytrach nag ar sail awdurdod lleol unigol.

## Gwerth cymdeithasol

- Mae'r ICF yn sbardun pwysig i sicrhau gwell diwylliant yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. Anogwyd rhanbarthau i ddefnyddio'r ICF i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswydd statudol o dan adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hyrwyddo datblygiad sefydliadau gwerth cymdeithasol, megis mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a'r trydydd sector. Er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad y sector pwysig hwn at ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, roedd disgwyl i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gynyddu eu cyllid ar werth cymdeithasol fel bod o leiaf 20% o'u cyllid refeniw blynyddol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector, erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

## Gofalwyr di-dâl

- rhoddwyd mwy o bwyslais ar yr angen i ddarparu cymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, i sicrhau bod eu hanghenion llesiant eu hunain yn cael eu diwallu. Dim ond dwy enghraifft o'r math o bethau a all helpu i wella llesiant gofalwyr yw darparu cyfleoedd seibiant a mynd i'r afael ag achosion unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae'r rhaglen ICF a'i holl brosiectau yn parhau i gael eu hategu gan egwyddorion allweddol:

- atal
- cydweithio
- integreiddio
- ymgysylltu â dinasyddion

Felly, mae'r rhaglen ICF yn rhoi nifer o'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith ac mae'n cyd-fynd â llawer o'r egwyddorion cynllunio cenedlaethol a nodir yn *Cymru Iachach.*

## Yr hyn y mae'r ICF wedi'i gyflawni yng Nghymru

Sefydlwyd yr ICF fel cronfa ysgogi neu gronfa brawf sy'n cynnig gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac yn fwy diweddar tai gyda'r cyfle i brofi modelau newydd o gymorth integredig a di-dor i ddinasyddion.

Mae datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sydd wedi'u cynllunio a'u darparu o amgylch anghenion a dewisiadau unigolion wrth wraidd cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*.

Mae'r Cynllun yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dull 'system gyfan' o ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Mae'r ICF yn helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Yn 2019–20 cefnogwyd amrywiaeth eang o brosiectau ataliol gan bob un o'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau sydd â'r nod o ddarparu gofal yn y cartref neu'n agos ato
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i hyrwyddo hunangymorth a diwallu anghenion pobl cyn iddynt waethygu fel bod angen gwasanaethau statudol
- integreiddio a chydlynu gwasanaethau iechyd a gofal i gefnogi plant ac oedolion ag anghenion cymhleth i gael y cymorth cywir yn y lle iawn ar yr adeg gywir
- cefnogi gofalwyr i gynnal eu rôl gofalu gan hybu eu llesiant eu hunain yr un pryd
- gwella teleofal ac offer arbenigol arall
- llety arbenigol i bobl hŷn a phobl ag anghenion cymorth penodol fel y rhai ag anableddau dysgu ac mae'r rhain weithiau ochr yn ochr â darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach newydd fel meddygfeydd, neu'n rhan ohonynt
- llety cam-i-fyny a cham-i-lawr ar gyfer trosglwyddo i mewn neu allan o'r ysbyty neu ofal
- addasiadau tai i helpu i atal cwympiadau a galluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol a byw yn eu cartrefi eu hunain
- cyfleusterau a seilwaith newydd i dimau iechyd a gofal cymdeithasol integredig allu gweithredu a darparu gwasanaethau i bobl drwy gynlluniau cynnar i ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn enwedig cleifion strôc
- timau ymateb cyflym yn y gymuned i ddarparu triniaeth neu ofal brys wedi'i amseru i bobl yn eu cartrefi yn lle eu hanfon i'r ysbyty datblygu Cymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia
- grantiau i sefydliadau'r trydydd sector i helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol i bobl hŷn a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau cymunedol a'r mynediad atynt.



Yn ogystal â helpu i ddarparu gwasanaethau mwy di-dor i ddinasyddion, mae'r ICF hefyd wedi galluogi newid ehangach yn y system gan gynnwys:

**Gweithio integredig –** mae sefydlu timau amlddisgyblaethol mewn llawer o ysbytai a chymunedau ledled Cymru wedi helpu i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau, gan gefnogi'r egwyddor o ddarparu'r dull cywir, y tro cyntaf a lleihau cymhlethdod o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymorth.

## Enghraifft dda

Mae Timau Adnoddau Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn wedi'u lleoli mewn 5 prif safle hyb yn Nolgellau, Caernarfon, Pwllheli, Amlwch a Chaergybi ac mae staff hefyd yn gallu cydweithio o fannau cyswllt lleol mewn meddygfeydd.

Mae'r timau yn cynnwys staff iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol (gan gynnwys Nyrsys Ardal, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a Gweithwyr Cymorth Dementia) sy'n darparu gwasanaethau gofal cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy un pwynt mynediad. Mae'r timau yn canolbwyntio ar ddarparu *yr hyn sy'n bwysig* i'r unigolyn i ddiwallu ei anghenion iechyd a gofal. Mae'r timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig hyn yn darparu gofal adsefydlu dwys tymor byr a chymorth i bobl hŷn. Mae'r timau'n galluogi pobl i oresgyn yr angen i fynd i'r ysbyty neu i ofal hirdymor, neu'n eu galluogi ddychwelyd adref yn gynt ar ôl bod mewn ysbyty acíwt. Maent hefyd yn darparu cymorth i ofalwyr.

Ar ddiwedd 2019–2020 roedd y prosiect wedi cefnogi 1,434 o bobl, gydag 80% yn dweud eu bod wedi cyflawni yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a 100% yn dweud eu bod yn teimlo'n llai ynysig.

**Lleihau'r pwysau ar y system –** Defnyddiwyd cyllid yr ICF ledled Cymru i leddfu'r pwysau ar y system gofal acíwt drwy fentrau fel prynu gwelyau cam-i-fyny/cam-i-lawr a gweithgarwch arall i wella oedi wrth drosglwyddo gofal a lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r gronfa wedi helpu gwasanaethau i symud oddi wrth rai o'r mathau mwy traddodiadol o ofal cleifion, gan gynnwys mewn gofal ysbyty, ac yn hytrach mae wedi cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, gyda gofal yn cael ei ddarparu gartref neu'n agosach ato.

## Enghraifft dda

Mae Gwasanaeth Cartref **Ewch â Fi Adref** newydd Cyngor Caerdydd, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel 'y fyddin binc' yn darparu un pwynt mynediad yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty'r Brifysgol, Llandochau, ar gyfer yr holl wasanaethau yn y gymuned. Mae'r tîm yn cydweithio â staff y wardiau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol i'r ystod lawn o wasanaethau a gynigir gan y rhaglen Gwasanaethau Ataliol, yn ogystal â gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y gymuned neu'r cartref, er mwyn eu cefnogi i ddychwelyd adref yn ddiogel ac yn hyderus cyn gynted â phosibl. Mae'r tîm o staff aml-sgiliau yn y cyngor yn gweithio law yn llaw â chydweithwyr iechyd yn yr ysbyty i hwyluso'r daith adref, gan ddechrau ar eu gwaith gan ofyn beth sy'n bwysig i chi i ddod o hyd i'r atebion cywir i bobl.

## Enghraifft dda


Mae'r gwasanaeth aros yn iach gartref yn gweithredu ar draws Cwm Taf ac mae'n enghraifft wych o gydweithio a gweithio integredig. Mae'r gwasanaeth sy'n weithredol 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn ysbytai, ac mae wedi'i leoli yn ysbytai acíwt Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Mae'r tîm yn cynnal asesiadau a chomisiynau cychwynnol ac yn seiliedig ar y sgwrs '*Beth sy'n bwysig i mi*' mae'n comisiynu'r gymuned iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector perthnasol i gefnogi rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth aros yn iach gartref wedi llwyddo i gefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Mae'n gyfuniad o asesu amserol yn yr adran damweiniau ac achosion brys a mynediad at wasanaethau cymunedol ymatebol. Mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau y gall pobl gyflawni eu canlyniadau llesiant personol eu hunain ac mae wedi lleihau hyd cyfartalog arhosiad pobl yn yr ysbyty ar draws Cwm Taf yn sylweddol.

Yn ystod 2018-2019 roedd 183 o bobl 61-74 oed wedi ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys na fu'n rhaid iddynt aros dros nos. Cynyddodd hyn i 2,153 yn ystod 2019–2020. Nifer y bobl 75+ oed a ymwelodd ag adrannau damweiniau ac achosion brys ac na chafodd arhosiad dros nos yn 2018-2019 oedd 151. Mae hyn hefyd wedi cynyddu'n sylweddol i 1,140 yn 2019–2020.

Mae cam 2 y model aros yn iach gartref yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol cymunedol i'w cefnogi i helpu eu cleifion i osgoi'r angen i'w cludo i'r ysbyty neu eu derbyn i'r ysbyty drwy gadw pobl yn ddiogel a'u cefnogi gartref. Mae'n rhoi ymateb i bob atgyfeiriad gan weithwyr proffesiynol cymunedol o 8.30a.m. tan 8.00p.m, 7 diwrnod yr wythnos. Er mwyn cyflawni'r ymateb hwnnw mae'n defnyddio'r 'Aseswyr Dibynadwy' mewn un pwynt mynediad i gynnal asesiad cymesur a chytuno ar ymateb o fewn 4 awr i ddewislen o adnoddau cymunedol gan gynnwys gofal cartref, technoleg gynorthwyol, a therapi galwedigaethol. Defnyddiwyd cyllid Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru i ychwanegu adnoddau a chapasiti ychwanegol at wasanaethau sy'n bodoli eisoes i ganiatáu ymestyn y gwasanaethau un pwynt mynediad, therapi galwedigaethol, ailalluogi a gofal cartref sy'n galluogi gwasanaethau i gwmpasu nosweithiau a phenwythnosau.

**Atal llesiant gwael - mae –**llawer o wasanaethau a phrosiectau a ariennir gan yr ICF yn cyfrannu at leihau unigrwydd ac ynysigrwydd unigolion. Drwy helpu dinasyddion i gysylltu â phobl a gwasanaethau eraill yn eu cymunedau eu hunain, maent mewn sefyllfa well i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt a chefnogi eu llesiant eu hunain, gan atal ystod eang o afiechydon sy'n gysylltiedig ag unigrwydd ac ynysigrwydd. Felly, mae presgripsiynu cymdeithasol yn elfen bwysig o'r ICF. Mae gan bob rhanbarth ledled Cymru gysylltwyr cymunedol neu lywiwyr cymunedol i helpu i gysylltu pobl â gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau eu hunain.



## Enghraifft dda

Mae Gwasanaeth Cysylltu Cymunedol Powys yn parhau i helpu pobl dros 18 oed a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cymunedol hanfodol. Yn 2019–2020 ymdriniodd y gwasanaeth â 2,994 o atgyfeiriadau a cheisiadau gan bobl sy'n awyddus i gael rhyw fath o gymorth, sy'n gynnydd o 26% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dangosodd arolwg diweddar fod 85% o ddefnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir a dywedodd 100% eu bod yn cael eu trin â pharch. Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, daeth y gwasanaeth yn achubiaeth i'r rhai heb deulu neu ffrindiau agos a oedd yn gorfod hunanynysu oherwydd y pandemig. Cynyddodd atgyfeiriadau yn ystod Covid, gyda'r tîm yn gallu trefnu i ddarparu presgripsiynau, cymorth gydag anghenion siopa, a pharu pobl gyda chyfeillachwyr a gwasanaethau gwybodaeth iechyd meddwl eraill.

## Enghraifft dda

Mae prosiect Gwydnwch Lleol Gorllewin Cymru yn darparu amrywiaeth o fentrau ataliol yn y gymuned sydd â'r nod o wella llesiant pobl, cefnogi byw'n annibynnol, cryfhau gwydfydnwch cymunedol a lleihau'r angen am ymyriadau statudol. Cefnogwyd tua 581 o unigolion i sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl am fwy o amser yn eu cartrefi eu hunain, gan dderbyn 53 diwrnod o gymorth yr un ar gyfartaledd.

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth "*Doeddwn i ddim yn gwybod ble i droi ac rydych chi wedi dod o hyd i'r holl help oedd ei angen arna i.*"

**Newid ehangach yn y system –** mewn llawer o achosion defnyddiwyd yr ICF ochr yn ochr â ffrydiau ariannu eraill fel y Gronfa Gofal Sylfaenol, y Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg a Teuluoedd yn Gyntaf i sicrhau bod gwariant gyda rhanbarthau yn cael ei gydgysylltu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i ddinasyddion. Mae'r defnydd o gronfeydd cyfunol gan rai byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi bod yn rhan annatod o hyn. Mae prosiectau'n cael eu datblygu hefyd lle mae cyfalaf ICF yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â rhaglenni cyfalaf tai ac iechyd, megis tai gofal ychwanegol gyda llety tymor byr cam-i-fyny a cham-i-lawr gyda meddygon teulu a gwasanaethau cymdeithasol cymunedol. Mae’r hyn a ddysgir o brosiectau ICF a'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a seilwaith yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith ehangach o ddatblygu a darparu gwasanaethau.

## Enghraifft dda

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent wedi defnyddio cyllid ICF ochr yn ochr â ffrydiau ariannu eraill i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ei ddinasyddion er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl:

Mae'r cynllun Cysylltiadau Cymunedol a Chyfeillio yn Sir Fynwy yn fodel datblygu cymunedol integredig sy'n derbyn cyllid gan yr ICF a chyllid Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn (OAMH), ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Sir Fynwy. Mae'r model integredig hwn yn rhoi cymorth i grwpiau cymunedol ddatblygu a dod yn hunangynhaliol, archwilio cyfleoedd i ariannu, darparu gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol a rhaglenni gwirfoddoli a chymorth cymheiriaid 1:1. Galluogwyd cychwyn y prosiect gan y Grant Loteri Fawr a phrosiectau ICF ar raddfa fach i brofi'r cysyniad, a dyfwyd ymhellach gyda chyllid ICF ac OAMH. Un o'r partneriaid cyflawni allweddol yn y model hwn yw'r Bridges Centre, sefydliad trydydd sector yn Sir Fynwy.

## Enghraifft dda

Mae gwasanaeth **Gartref o’r Ysbyty** Gorllewin Morgannwg, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2019 bellach yn gweithredu ar draws y rhanbarth. Mae'n canolbwyntio ar drefnu a darparu'r cymorth angenrheidiol yn brydlon i unigolion allu dychwelyd adref neu'r lleoliad gofal mwyaf addas, yn dibynnu ar eu hanghenion, ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Yn hytrach nag asesiad cynhwysfawr, mae unigolion yn adrodd eu stori wrth ‘lywiwr’ Gartref o’r Ysbyty sy’n gweithredu ar ran pob asiantaeth ac yn cynnal un asesiad yn seiliedig ar asedau a chryfderau'r person. Mae'n darparu cymorth sy'n cwmpasu llesiant corfforol a meddyliol unigolion, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda dementia a nam gwybyddol, gyda sgyrsiau'n canolbwyntio ar *yr hyn sy'n bwysig i mi.*

Yn 2019–2020 cefnogwyd 544 o gleifion a ryddhawyd. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio'n gryf ar ailalluogi, gyda chymorth yn y cartref fel prif lwybr rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae Gartref o’r Ysbyty wedi rhoi cyfle i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg fyfyrio ar y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau er mwyn eu symleiddio a'u gwella ar draws y rhanbarth. Mae wedi darparu sylfaen a sbardun y gallai'r bwrdd partneriaeth ymateb iddo a delio â'r pandemig byd-eang. Yn ogystal, mae wedi tynnu sylw at y gwerth y mae timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn ei gyfrannu at gefnogi pobl adref o'r ysbyty a'u taith i adennill annibyniaeth a hyder. Mae hefyd wedi galluogi pobl i wella gartref a chael clywed eu lleisiau fel y gellir cytuno ar eu hanghenion gofal hirdymor i ffwrdd o leoliad ysbyty.

Mae Mr Morgan yn 82 oed ac fe'i derbyniwyd i'r ysbyty yn dilyn cwymp. Roedd ganddo gymhlethdodau yn ystod ei arhosiad a arweiniodd at ei dderbyn am gyfnod estynedig yn yr ysbyty a’i drosglwyddo i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer cynllunio i’w rhyddhau o’r ysbyty.

Cafodd ei ryddhau gan ddefnyddio llwybr Gartref o’r Ysbyty a oedd yn golygu tri ymweliad y dydd i roi cymorth gydag ymolchi, gwisgo, paratoi prydau bwyd, a chynyddu ei hyder wrth ddefnyddio'r grisiau i mewn ac allan o'i eiddo fel y byddai'n gallu ymweld â'i dafarn leol gyda'i ffrindiau. Roedd y dull cydgysylltiedig hwn rhwng ffisiotherapi a therapi galwedigaethol yn galluogi Mr Morgan i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae bellach yn annibynnol o ran gofal personol a pharatoi prydau bwyd ac mae'n gallu mynd a dod o’i gartref a’r gymuned leol yn hyderus.



**Hyrwyddo partneriaeth –** Mae cydweithredu a phartneriaeth yn rhan annatod o'r ICF ac mae'r enghreifftiau a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn dyst i hynny. Drwy ddarparu adnoddau penodol i brofi modelau darparu arloesol, datblygwyd cydberthnasau partneriaeth newydd yn strategol ac yn weithredol i integreiddio gwasanaethau ymhellach.

## Enghraifft dda

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin sy'n arwain y gwaith o weinyddu Prosiect Cymorth Unedig Sir Gaerfyrddin (CUSP). Nod gweithwyr cymorth CUSP yw deall yr hyn sydd bwysicaf i bobl i'w helpu i gynnal a gwella eu llesiant a'u hannibyniaeth am gyfnod hirach yn eu cartrefi eu hunain, gan helpu pobl i ddod yn fwy hyderus ac annibynnol wrth reoli eu bywyd o ddydd i ddydd.

Mae CUSP yn bartneriaeth o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn Sir Gaerfyrddin, i gyd yn cydweithio i roi cymorth wedi'i deilwra i unigolion. Mae'n ddarpariaeth gymunedol gwbl integredig sy'n ymgorffori Gartref o'r Ysbyty ac egwyddor Cartref - nid Ysbyty. Yn ystod 2019–2020 derbyniodd CUSP 465 o atgyfeiriadau o'r ysbyty, cynnydd o 47.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynhaliwyd 737 o ymweliadau gan y gweithwyr cymorth. Derbyniwyd yr adborth canlynol:

*“Alla i ddim credu'r gefnogaeth rydych chi'n ei darparu, a hynny am ddim. Rydych chi i gyd yn angylion y lot ohonoch chi. Dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i wedi bod hebddoch chi.”*

*“Dydych chi ddim yn gwybod faint mae hyn wedi fy helpu'n gorfforol ac yn feddyliol. O waelod fy nghalon, diolch”*

## Enghraifft dda

Mae prosiect Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth Gorllewin Morgannwg yn trawsnewid bywydau pobl ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gwasanaethau gofal mewn gofal preswyl a byw â chymorth. Ei brif amcan yw darparu gwasanaethau a gomisiynir o ansawdd da gyda'r nod yn y pen draw o gynyddu annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau, a'u cefnogi i gyflawni eu nodau llesiant personol.

Mae'n enghraifft o wir gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth sy'n rhoi'r person wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae darparwyr gofal yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i greu pecynnau gofal pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pob unigolyn. Mae'r dull hwn yn grymuso pobl i gefnogi eu hunain, dod yn llai dibynnol ar wasanaethau yn y tymor hwy, a gallu byw bywydau bodlon yn eu cymuned leol, bod yn agosach at deulu, ffrindiau, gwasanaethau arbenigol a rhwydweithiau cymorth.

### Cefnogi plant sy’n wynebu risg

Yn 2019–2020 roedd £15 miliwn ychwanegol ar gael ledled Cymru i gefnogi'n benodol ofal plant a phlant profiadol sy’n wynebu risg o fynd i ofal neu sydd neu ar gyrion gofal. Mae llawer o enghreifftiau gwych ledled Cymru sy'n dangos sut mae plant wedi cael cymorth, dyma rai:

## Enghraifft dda

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaethol (MAPPs) ym Mae'r Gorllewin yn dîm amlddisgyblaethol sy'n ceisio helpu plant gyda salwch meddwl ac anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, neu sydd mewn perygl o hynny, drwy ddarparu cymorth lleoliad arbenigol. Drwy MAPPs mae nifer cyffredinol y plant a leolir mewn lleoliadau maeth preswyl ac annibynnol cost uchel ar draws y rhanbarth wedi gostwng, ac mae 48 o blant wedi cael cymorth i sicrhau sefydlogrwydd lleoliadau (ystyrir bod pob plentyn a atgyfeirir yn wynebu risg fawr y bydd eu lleoliad yn chwalu).

## Enghraifft dda

Yn y Gogledd mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn darparu amrywiaeth o ymyriadau gofal i gefnogi plant i ddychwelyd adref. Mae'r teuluoedd y mae'r tîm wedi gweithio gyda hwy dros y flwyddyn ddiwethaf yn aml wedi cael problemau'n ymwneud ag esgeulustod, dieithrwch/gwrthdaro rhieni, cyflyrau gwael yn y cartref, cam-drin corfforol neu iechyd meddwl gwael. Drwy eu hymyriad mae'r tîm wedi cefnogi:

- 7 o blant (o 5 teulu) i'w i ddychwelyd i ofal eu teuluoedd
- Mae 14 o blant wedi'u cyfeirio oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant i dderbyn gofal a chymorth
- Darparu ymyriadau dwys i 136 o deuluoedd (yn cynnwys 309 o blant)
- Trefnu a hwyluso 19 o grwpiau rhianta (ar gyfer 55 o blant)

Adborth gan riant y mae ei blentyn yn parhau yn ei gofal o ganlyniad i'r ymyriad:
*"Diolch am eich holl gefnogaeth ac anogaeth... rydym wedi dysgu cymaint o sgiliau newydd – anodd ond yr un mor werthfawr. Diolch am wneud gwahaniaeth".*

## Enghraifft dda

Helpodd prosiect Ar Ffiniau Gofal Powys blant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd lle mae er eu lles gorau ac yn ddiogel i wneud hynny. Mae'n darparu cymorth dwys i sefydlogi teuluoedd ac yn lleihau'r angen i blant a phobl ifanc ddechrau derbyn gofal. Yn ystod y flwyddyn 2019–2020, cyfeiriwyd 278 o blant at y gwasanaeth, dangosodd 77% o deuluoedd ddilyniant cadarnhaol ar ddiwedd yr ymyrraeth, cafodd 4 o blant fynd yn ôl at eu teuluoedd ac mae 90% o'r plant a atgyfeiriwyd wedi aros gartref.

*"Roeddwn i'n teimlo y gallwn siarad â Mel (Gweithiwr EoC) ac ymddiried ynddi gyda'r hyn oedd gennyf i'w ddweud. Doeddwn i byth yn teimlo fy mod i'n cael fy meirniadu, roedd yn gwneud i mi sylweddoli fy effaith ar fy nheulu a sut y gallwn wella petha."*
– Defnyddiwr Gwasanaeth




# Buddsoddiad Refeniw y Gronfa

## Dyraniadau 2019-2020

Mae Ffigur 1 isod yn nodi'r dyraniadau ICF cenedlaethol yn ôl grŵp poblogaeth â blaenoriaeth, fel y disgrifir yng nghanllawiau ICF 2019–2020. Mae'n bwysig nodi, er bod cyllid ar gyfer pobl fregus a phobl hŷn wedi'i neilltuo'n hanesyddol, nad yw cyllid ar gyfer gofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth wedi'i dorri'n rhannau na'i bennu. Oherwydd nad oedd wedi'i glustnodi, roedd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol allu cynllunio eu rhaglenni ICF eu hunain a fyddai'n ymateb i'w hasesiad o anghenion y boblogaeth a'u cynllun ardal.

### Ffigur 1: Dyraniadau ICF 2019–2020 fesul grŵp blaenoriaeth





Er gwybodaeth, mae Ffigur 2 yn dangos y dadansoddiad rhanbarthol o ddyraniad ICF yn 2019–2020 yn ôl grŵp poblogaeth.

Darparwyd £600,000 ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi cyflwyno WCCIS gan ddod â chyfanswm y cyllid at y diben hwn i £2.6 miliwn.

## Ffigur 2: Cyllid a ddyrannwyd: Maes blaenoriaeth yn ôl Rhanbarth

| BPRh | Pobl hŷn | Gofalwyr, anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) | Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | Plant ar ffiniau gofal/yn wynebu risg o fod yn blant sy'n derbyn gofal | Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin Morgannwg | £5,223,724 | £2,590,000 | £254,000 | £398,000 | £1,942,000 | £1,175,338 |
| Gwent | £7,161,992 | £3,826,432 | £597,394 | £458,000 | £2,869,824 | £1,611,449 |
| Gogledd Cymru | £9,567,262 | £4,251,381 | £340,000 | £652,000 | £3,188,535 | £2,152,633 |
| Caerdydd a'r Fro | £4,895,343 | £2,878,908 | £200,798 | £367,000 | £2,159,181 | £1,101,452 |
| Cwm Taf | £5,521,313 | £3,214,385 | £212,664 | £367,000 | £2,410,788 | £1,242,296 |
| Gorllewin Cymru | £5,550,419 | £2,425,524 | £455,716 | £398,000 | £1,819,143 | £1,248,844 |
| Powys | £2,079,947 | £813,709 | £52,904 | £337,000 | £610,282 | £467,988 |
| Arall (*NWIS a CLILC) | £0 | £0 | £500,000 | £23,000 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£40,000,000** | **£20,000,339** | **£2,613,476** | **£3,000,000** | **£14,999,753** | **£9,000,000** |

## Patrwm Daearyddol Rhanbarthol 2019–20




© Hawlfraint y Goron 2019
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
Mai 2019

OGL

## Gwariant Gwirioneddol 2019–2020


Mae Ffigur 3 isod yn rhoi trosolwg cenedlaethol i ddangos sut y mae byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi buddsoddi eu dyraniadau ICF mewn gwirionedd yn y grwpiau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt. Yn y siart hon rydym wedi dadansoddi gwariant ar ofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth i ddangos y buddsoddiad gwirioneddol.

Mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar brif fuddiolwyr prosiectau. Rydym yn cydnabod bod llawer o brosiectau'n cefnogi nifer o'r gwahanol grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth ar yr un pryd, er enghraifft mae rhai prosiectau'n cefnogi pobl hŷn a'u gofalwyr.


Rydym hefyd wedi cynnwys ffigur ar wahân ar gyfer cyllid a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith rhanbarthol. Defnyddiwyd yr arian hwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu timau cefnogi byrddau partneriaeth rhanbarthol, rheoli rhaglenni a phrosiectau ar gyfer rhaglenni'r ICF a gweithgarwch comisiynu rhanbarthol.

Mae'r ffigurau buddsoddi gwirioneddol hefyd yn adlewyrchu bod lefel y buddsoddiad gwirioneddol mewn gwasanaethau i bobl hŷn am y tro cyntaf ychydig yn llai na'r dyraniad gwreiddiol, gyda £245,615 yn cael ei ddyrannu i grwpiau blaenoriaeth eraill sy'n dangos bod yr ICF yn cael ei buddsoddi'n fwy eang ar draws y grwpiau blaenoriaeth ehangach.

### Ffigur 3: Gwariant Gwirioneddol 2019–2020 yn ôl grwpiau blaenoriaeth



## Ffigur 3a: Gwariant gwirioneddol yn ôl cymhariaeth o fath o flaenoriaeth 2018–2019 a 2019–2020



Mae Ffigur 4 isod yn amlygu nifer y prosiectau ym mhob rhanbarth, fesul grŵp blaenoriaeth. Unwaith eto, yr ydym wedi chwalu gofalwyr, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth i ddangos buddsoddiad gwirioneddol.

### Ffigur 4: Nifer y prosiectau Arfaethedig/Disgwyliedig: Maes blaenoriaeth o ran Integreiddio

| Maes blaenoriaeth yn ôl rhanbarth | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Gwent | Y Gogledd | Powys | Gorll Cymru | Gorll Morg | Cyfanswm 2019-2020 | Cyfanswm 2018-2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr | 3 | 2 | 6 | 5 | 1 | 9 | 8 | 34 | 33 |
| Plant ar ffiniau gofal/yn wynebu risg o fod yn blant sy'n derbyn gofal | 5 | 19 | 5 | 18 | 1 | 1 | 3 | 52 | 0 |
| Plant ag anghenion cymhleth | 8 | 1 | 6 | 15 | 5 | 1 | 9 | 45 | 44 |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia | 4 | 14 | 21 | 27 | 5 | 3 | 16 | 90 | 107 |
| Pobl hŷn | 16 | 28 | 8 | 29 | 12 | 25 | 12 | 130 | 154 |
| Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 7 | 8 |
| Anableddau dysgu | 10 | 7 | 7 | 8 | 4 | 12 | 6 | 54 | 36 |
| Seilwaith rhanbarthol | 1 | 1 | 1 | 13 | 7 | 1 | 4 | 28 | 27 |
| WCCIS | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 7 | 8 |
| **Cyfanswm** | **49** | **74** | **56** | **117** | **37** | **54** | **60** | **447** | **422** |

Yn 2019-2020 ariannodd yr ICF gyfanswm o 447 o brosiectau ledled Cymru. Lle y bo'n bosibl, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol i gyfuno prosiectau ar wahân sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol yn brosiectau lefel ranbarthol cyfun gyda'r fantais ychwanegol o gysondeb ac aliniad ar draws y rhanbarth. Er bod y ffigurau hyn yn dangos cynnydd yn nifer y prosiectau o 2018-2019 (422) o ystyried y £30 miliwn ychwanegol o gyllid a fuddsoddwyd yn 2019-2020 mae hyn yn cynrychioli persbectif bod rhywfaint o atgyfnerthu wedi digwydd.

Mae prosiectau'n amrywio'n sylweddol ac mae Ffigur 7 isod yn dangos maint a graddfa'r prosiectau. Yn 2019-2020 roedd amrywiaeth rhwng dulliau rhanbarthol o ddatblygu prosiectau a rhaglenni ICF. Parhaodd rhai byrddau partneriaeth rhanbarthol i ddatblygu llawer o brosiectau llai, lleol neu unigol sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol gydag eraill yn cymryd cam amlwg tuag at ddatblygu prosiectau rhanbarthol mwy strategol.

## Cipolwg ar Ofalwyr

Bob dydd, mae miloedd o ofalwyr di-dâl yn helpu pobl i gadw'n ddiogel ac yn iach yn eu cartrefi ac mae 'r cymorth hwnnw wedi dod yn fwyfwy pwysig yn ystod pandemig y coronafeirws. Rydym yn llwyr werthfawrogi'r gwaith pwysig y mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud, ac felly rydym am sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr di-dâl. Mae gofalwyr o bob oedran yn elwa'n anuniongyrchol o'r cymorth a ddarperir i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, ac mae hyn ymhlyg drwy gydol yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod anghenion cymorth a llesiant y gofalwyr eu hunain yn cael eu diwallu, yn unol â'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr. Felly, mae'r ICF hefyd yn rhoi cymorth **uniongyrchol** i ofalwyr di-dâl, megis cyfleoedd ar gyfer seibiant, a gwella llesiant y gofalwyr eu hunain.

Yn 2019–2020 rhoddodd Llywodraeth Cymru sylw i'r angen i gefnogi gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol gan ddisgwyl y byddai mwy o fuddsoddiad gan bob un o'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn benodol at y diben hwn.

Mae'r dadansoddiad o'r gwariant yn ffigur 3 yn dangos bod byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi buddsoddi £2,440,613 mewn gwasanaethau i ofalwyr (sy'n cyfateb i 3% o gyfanswm y gyllideb). Fodd bynnag, nid yw hyn ond yn cynnwys buddsoddi yn y prosiectau hynny lle mae gofalwyr yn brif fuddiolwr. Gwyddom fod llawer o'r prosiectau eraill a allai nodi grwpiau blaenoriaeth eraill fel y prif fuddiolwr hefyd yn cynnwys gweithgarwch i gynnig budd uniongyrchol i ofalwyr di-dâl. Felly, gwahoddwyd byrddau partneriaeth rhanbarthol i gynnal dadansoddiad manylach o'u rhaglen i nodi'r buddsoddiad ehangach a fyddai o fudd uniongyrchol i ofalwyr di-dâl.

Yn dilyn yr ymarfer hwn, nododd yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y rhanbarthau, yn 2019–2020, fod tua £9.1 miliwn o gyllid yr ICF wedi'i ddefnyddio i gefnogi gofalwyr yn uniongyrchol ar draws yr holl grwpiau poblogaeth y mae'r gronfa'n eu cefnogi.

| | **Cymorth Uniongyrchol i Ofalwyr** |
|---|---|
| Gorllewin Morgannwg | £239,970 |
| Gwent | £1,066,912 |
| Gogledd Cymru | £5,698,138 |
| Cwm Taf | £2,820,144 |
| Caerdydd a'r Fro | £71,200 |
| Gorllewin Cymru | £146,671 |
| Powys | £166,000 |
| **Cyfanswm** | **£10,209,035** |

Mae canllawiau a roddwyd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol mewn perthynas â'u rheolaeth o'r gronfa yn 2020-21 a 2021–22 yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr. Mae'n ailddatgan yr angen am fwy o fuddsoddiad gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol i gefnogi anghenion llesiant gofalwyr eu hunain fel y gall y grŵp gwerthfawr hwn o bobl, y mae cynifer yn dibynnu arnynt, gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt hefyd.



## Enghraifft dda

Cyflwynir gwasanaeth gofalwyr Powys gan yr elusen gofrestredig, Credu. Maent yn darparu cymorth o ansawdd uchel, gan alluogi gofalwyr i fwynhau mwy o ymdeimlad o lesiant, yn fwy cysylltiedig ag eraill, ac yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Archwiliodd Credu fathau newydd o seibiant i ofalwyr o bob oed a'u teuluoedd, megis encilion a sesiynau hyfforddi.

Mae'r prosiect yn ymwneud â gwrando ar *yr hyn sy'n bwysig* ac mae Credu wedi gallu helpu rhai teuluoedd i ymdopi â theimladau o fod yn ynysig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Credu wedi cefnogi 121 o ofalwyr, gan gynnwys 22 o gyfleoedd seibiant, drwy godi ymwybyddiaeth, cyflawni prosiectau seibiant, a chael sgyrsiau beth sy'n bwysig pwrpasol gyda gofalwyr i ddod o hyd i atebion unigol.

## Enghraifft dda

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r project Fi fy hun a minnau (MMI) yn helpu i gefnogi gofalwyr i sicrhau bod eu hanghenion llesiant eu hunain yn cael eu diwallu. Drwy'r Clwb Cyfeillgarwch Cymunedol, sesiynau grŵp a gwasanaeth Seibiant Dydd, mae'r MMI yn cynnig seibiant i ofalwyr sy'n caniatáu i bobl roi sylw i'w hymrwymiadau, apwyntiadau iechyd ac ati tra bod eu hanwyliaid yn derbyn gofal diogel gan aelod o'r tîm MMI. Yn 2019–2020:

- Daeth 12 partner gofal i'r sesiynau grŵp
- Derbyniodd 15 o bartneriaid gofal gymorth un-i-un
- Derbyniodd 10 gofalwr hyfforddiant a chymorth
- Mae 100% o ofalwyr yn adrodd am well llesiant a llai o deimladau o bryder.

## Buddsoddiad rhanbarthol ac anranbarthol

Mae'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ICF wedi digwydd o fewn tirwedd sy'n esblygu ac yn trawsnewid, ac sy'n ceisio integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar draws ffiniau sefydliadol ac awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau rhanbarthol o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol.


At ddibenion yr adroddiad hwn, nodir prosiectau rhanbarthol fel prosiectau sy'n rhychwantu'r patrwm daearyddol rhanbarthol cyfan h.y. pob awdurdod lleol ac maent yn cynnwys y bwrdd iechyd lleol fel partner cyflenwi.

Diffinnir prosiectau anranbarthol fel prosiectau sy'n gweithredu mewn un ardal neu rai o ardaloedd awdurdod lleol yn unig a gallant gynnwys y bwrdd iechyd fel partner cyflenwi ar y cyd neu beidio. Prosiectau trawsranbarthol yw'r rhai sy'n cynnwys o leiaf ddau ranbarth.


Rydym hefyd wedi cynnwys y syniad o brosiectau is-ranbarthol sydd wedi'u datblygu yn y rhanbarthau llawer mwy fel Gogledd Cymru. Mewn rhanbarth fel Gogledd Cymru, lle mae chwe awdurdod lleol a bwrdd iechyd mawr, gall dulliau is-ranbarthol fod yn gam defnyddiol tuag at brofi modelau darparu cyn eu datblygu'n ddull rhanbarthol llawn.

Dengys Ffigur 5 fod 64% o'r ICF cyffredinol yn 2019–2020 wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau lefel ranbarthol a darparu gwasanaethau, cynnydd o 23% ers 2018–2019. Mae hyn yn dangos bod 36% o'r ICF yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau awdurdod lleol neu unigol. Dim ond 3% a fuddsoddwyd mewn darpariaeth is-ranbarthol. Bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau ffordd fwy unedig o ddarparu gwasanaethau o fewn y rhanbarthau ac yn helpu i gyflymu'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn rhanbarthol.

### Ffigur 5: Buddsoddiad ICF 2019–2020 mewn gweithgarwch rhanbarthol ac anranbarthol





### Ffigur 5(a): Buddsoddi mewn gweithgarwch rhanbarthol/anranbarthol – cymhariaeth 2018–19 a 2019–2020



Oherwydd y dirwedd sy'n esblygu, mae lefelau'r buddsoddiad rhanbarthol yn amrywio o ranbarth i ranbarth. Dengys Ffigur 6 lefel y buddsoddiad rhanbarthol ac anranbarthol ar gyfer pob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru.


### Ffigur 6: 2019–2020 Buddsoddiad rhanbarthol ac anranbarthol fesul rhanbarth




Dengys Ffigur 7 fod nifer sylweddol o brosiectau (158) yn gymharol fach o ran maint, gan dderbyn llai na £50,000 gyda dim ond 14 prosiect yn derbyn dros £1 miliwn. Mae hyn yn cymharu â 6 phrosiect yn 2018–2019 dros £1 miliwn a 140 yn llai na £50,000. Y prosiect lleiaf a ariannwyd yn 2019–2020 oedd yr Estyniad Sied Fwyd yng Ngorllewin Morgannwg yn derbyn £2,472 a'r prosiect mwyaf oedd prosiect Gartref o'r Ysbyty cam-i-fyny/cam-i-lawr Gorllewin Morgannwg a gafodd £4,401,903 mewn buddsoddiad ICF.

Er y gall prosiectau strategol ar raddfa fwy gael lefelau sylweddol o effaith gadarnhaol ar niferoedd mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau, mae'n bwysig nodi y gall prosiectau llai sydd â lefelau is o fuddsoddiad gael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau'r rhai y maent yn eu cefnogi. Yn aml, gallant ddarparu gwerth da am arian a hefyd darparu gwely prawf defnyddiol ar raddfa lai y gall agweddau cyflawni llwyddiannus dyfu ohono a ellir ei gynyddu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad yn 2019–2020 wedi'i gyfeirio at gefnogi prosiectau rhwng £50,000 a £500,000 (195) sy'n dangos ystod a graddfa eang y prosiectau a gefnogwyd.

## Ffigur 7: Nifer y prosiectau yn ôl maint




## Gwariant 2019–2020 yn ôl math o brosiect

Dengys Ffigur 8 fuddsoddiad ICF ledled Cymru yn ôl math o brosiect neu wasanaeth. Mae prosiectau wedi'u grwpio'n un o 15 math o brosiect. Ceir disgrifiad o'r mathau o brosiectau ar dudalen 32.


Unwaith eto, mae'n bwysig nodi, er ein bod yn cydnabod bod rhai prosiectau'n fawr ac yn gymhleth, gan gwmpasu mwy nag un o'r mathau o brosiectau a restrir isod, at ddibenion yr adroddiad hwn, bod prosiectau wedi'u grwpio yn ôl eu prif swyddogaeth.

Mae llawer iawn o adnoddau'n parhau i gael eu buddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau ar gyfer pobl fregus a phobl hŷn, yn enwedig 207 o brosiectau sy'n darparu gofal canolraddol, darpariaeth y cynllun gweithredu dementia a chynlluniau aros gartref/dychwelyd i'r cartref. Mae'r rhain yn unig yn gyfystyr â rhyw 205 o brosiectau.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi'r 218 o brosiectau a restrir o dan dimau cymunedol integredig, cymorth ac atal cynnar, mynediad at wasanaethau, iechyd a llesiant emosiynol a Phresgripsiynu Cymdeithasol (cyfanswm o 42% o'r buddsoddiad) sy'n canolbwyntio'n gryf ar atal ar lefel gymunedol.

Cafodd £3.7miliwn ei fuddsoddi gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ddatblygu eu seilwaith rhanbarthol. Mae hyn yn gynnydd o £2 filiwn ers 2018-19, sy'n adlewyrchu'r pwyslais cynyddol a roddir ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol fel dulliau cyflenwi allweddol ar gyfer *Cymru Iachach*.

## Ffigur 8: 2019–2020 Gwariant gwirioneddol yn ôl math o brosiect



## Ffigur 9: Nifer y prosiectau – Math o Brosiect yn ôl Rhanbarth

| | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Gwent | Gogledd Cymru | Powys | Gorll Morg | Gorll Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Canolraddol/ Llwybr | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 0 | 2 | 8 |
| Aros gartref/ Dychwelyd adref | 8 | 13 | 4 | 6 | 5 | 1 | 8 | 46 |
| Dementia | 4 | 14 | 20 | 27 | 5 | 16 | 3 | 89 |
| Timau Cymunedol Integredig | 3 | 1 | 1 | 6 | 2 | 0 | 4 | 17 |
| Cymorth ac Atal Cynnar | 13 | 12 | 10 | 19 | 3 | 11 | 13 | 81 |
| Mynediad at wasanaethau | 9 | 15 | 7 | 12 | 1 | 8 | 10 | 62 |
| Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 7 |
| Cam-i-fyny/Cam-i-lawr | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | 2 | 2 | 8 |
| Hyrwyddo iechyd a llesiant | 3 | 8 | 3 | 7 | 5 | 10 | 6 | 42 |
| WCCIS | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 7 |
| Seilwaith Rhanbarthol | 1 | 1 | 1 | 13 | 6 | 4 | 1 | 27 |
| Presgripsiynu Cymdeithasol | 0 | 2 | 3 | 5 | 3 | 3 | 0 | 16 |
| Cymorth i Deuluoedd | 1 | 4 | 2 | 4 | 2 | 1 | 0 | 14 |
| Asesu a Diagnosis | 1 | 0 | 1 | 6 | 0 | 1 | 1 | 10 |
| Atebion Llety | 3 | 2 | 1 | 5 | 0 | 1 | 2 | 14 |
| **Cyfanswm** | **49** | **74** | **56** | **117** | **37** | **60** | **54** | **447** |


Ers lansio'r Gronfa Trawsnewid (TF) yn 2018 mae Llywodraeth Cymru a phartneriaethau rhanbarthol Cymru wedi gweithio i nodi cyfleoedd i alinio a gwneud y mwyaf o fuddsoddiad ar draws yr ICF a'r TF i gefnogi'r gwaith o gyflawni *Cymru Iachach*. Cafodd llawer o'r prosiectau a ariannwyd drwy'r TF eu geni gyntaf yn yr ICF a thros amser, ar ôl profi a datblygu cychwynnol, daethant yn fodelau effeithiol ar gyfer cyflymu a chwyddo drwy'r TF.

Drwy broses o adolygu a mireinio ar draws y ddwy raglen a thrwy gymunedau ymarfer a ddatblygwyd o dan y TF nodwyd nifer o fodelau thematig/meysydd cyflawni allweddol a fydd yn helpu i lywio ffocws gwerthuso rhaglenni a rhaglenni adnoddau yn y dyfodol.

Mae Ffigur 10 yn dangos lefelau buddsoddiad ICF ym mhob un o'r modelau thematig/meysydd cyflawni hynny:

- Gofal seiliedig ar le
- Gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref
- Iechyd emosiynol a meddyliol

## Ffigur 10: Gwariant yn ôl Grŵp Thematig



# Geirfa Mathau o Wasanaethau/ Grwpio Thematig

## Gwasanaethau arbenigol ysbytai

- **Aros gartref/Dychwelyd adref**
  Rhyddhau o wasanaethau ysbyty, darparu gofal cymdeithasol a meddygol gartref yn hytrach na throsglwyddo i'r ysbyty, technolegau cynorthwyol i helpu pobl i gadw'n iach gartref, atal cwympiadau, ailalluogi, archwiliadau diogelwch yn y cartref, addasiadau i'r cartref gan gynnwys gwasanaethau gofal a thrwsio, gofal cartref, cludiant i'r ysbyty, gwasanaethau cofleidiol cymunedol.
- **Gofal Canolraddol/Llwybr**
  Mae'r prosiectau'n cynnwys cydgysylltwyr llif cleifion, gwasanaethau cyswllt cartrefi gofal/preswyl, cynlluniau atgyfeirio cleifion, timau ymateb acíwt, wardiau rhithwir.
- **Cam-i-fyny/Cam-i-lawr**
  Mae'r rhain yn welyau sy'n cynnig opsiwn amgen i leoliad ysbyty i unigolion wella o gyfnod o salwch gyda chymorth proffesiynol. Gall y gwasanaeth gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

## Gofal Seiliedig ar Le

- **Presgripsiynu Cymdeithasol**
  Mae prosiectau yn y maes hwn yn helpu i gysylltu pobl â gwasanaethau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol eu hunain i ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar, atal unigrwydd ac ynysigrwydd . Byddai prosiectau fel cysylltwyr cymunedol a llywiwyr cymunedol yn cael eu cynnwys yn y math hwn o wasanaeth.
- **Cymorth ac Atal Cynnar**
  Nod prosiectau yw cadw pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol ac maent yn cynnwys atal cwympiadau, mynediad at wasanaethau cymunedol, gwasanaethau cyfeillio, a chadw'n iach ac yn egnïol.
- **Mynediad at Wasanaethau**
  Mae'r prosiectau'n cynnwys cynlluniau Un Pwynt Mynediad, Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, codi ymwybyddiaeth gyda'r nod o helpu pobl, gan gynnwys gofalwyr, i gael mynediad cyflym a hawdd at ystod eang o wasanaethau yn eu hardal.
- **Timau Cymunedol Integredig**
  Cynigir hyn fel dewis amgen i dderbyn cleifion i'r ysbyty. Timau amlddisgyblaeth yw'r rhain o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol (nyrsys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac asiantaethau trydydd sector) yn cydweithio i ddarparu pecynnau gofal a chymorth di-dor i bobl yn eu cymunedau eu hunain.
- **Atebion Llety**
  Mae prosiectau'n ymwneud â darparu addasiadau i'r cartref fel y gall pobl barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, yn ogystal â llety â chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Gall prosiectau gynnwys costau darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf ICF.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Emosiynol

- **Gwella Iechyd a Llesiant**
  Mae'r prosiectau hyn yn cynnig cymorth iechyd meddwl cynnar ac ataliol fel atal unigrwydd ac ynysigrwydd, prosiectau gwydnwch a llesiant, ymwybyddiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod/trawma a seicoleg gymunedol.

## Arall

- **Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia**
  Nod prosiectau yw cefnogi unigolion â dementia i gynnal eu hannibyniaeth a'u bywyd o ddydd i ddydd drwy'r dull o amgylch yr unigolyn a chlinigau cof sy'n cefnogi diagnosis amserol. Roedd prosiectau hefyd yn cynnwys cefnogi cymunedau sy'n ystyriol o ddementia a chefnogi cartrefi gofal i ddarparu gofal a chymorth unigol. Cefnogir aelodau o'r teulu a gofalwyr hefyd, er enghraifft, darparu cyngor a chymorth gwybodaeth a gofal seibiant.

## Seilwaith a chomisiynu rhanbarthol

- Yn cynnwys costau rheoli prosiectau a rhaglenni ICF, cymorth a datblygiad byrddau partneriaeth rhanbarthol, gweithgarwch comisiynu rhanbarthol, astudiaethau dichonoldeb, ymchwil a gwerthuso.

# Cipolwg ar Werth Cymdeithasol

Mae'r Gronfa yn ysgogiad pwysig i wella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Mae'r sector gwerth cymdeithasol/trydydd sector yn bartner strategol allweddol wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau'r ICF.

Dan Adran 16 o'r Ddeddf mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau gwerth cymdeithasol yn eu hardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau cyflawni amgen hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector.

Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried sut gellir defnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad modelau cyflawni amgen mewn cysylltiad â'r meysydd sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio a nodir uchod.

Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo sefydliadau gwerth cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhagweithiol i annog pobl i gymryd rhan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Cod Ymarfer Rhan 2 hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid statudol i sefydlu fforymau gwerth cymdeithasol rhanbarthol a disgwylir i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ymgysylltu â'r fforymau gwerth cymdeithasol hyn er mwyn sicrhau gwerth cymdeithasol a bod rhanddeiliaid y trydydd sector yn gallu dylanwadu ar brosiectau a gwasanaethau a'u llunio gan ddefnyddio egwyddorion cydgynhyrchu.


Dangosodd dadansoddiad o fuddsoddiad blaenorol yr ICF fesul sector fod lefelau buddsoddi yn y sector gwerth cymdeithasol yn isel o gymharu â buddsoddiad mewn darparwyr gwasanaethau statudol. Mewn ymateb i hyn, roedd canllawiau ICF 2019–220 yn cynnwys disgwyliad clir y byddai byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cynyddu buddsoddiad yn y sector pwysig hwn i o leiaf 20% erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

Mae pob rhanbarth wedi cymryd camau breision tuag at gyrraedd y targed hwn ac maent yn gweithio'n galedi gynyddu lefel y buddsoddiad flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**Ffigur 11: mae'r tabl isod yn dangos swm a chanran yr ICF y mae'r Byrddau Cydweithredol Rhanbarthol yn adrodd eu bod yn buddsoddi yn y sector gwerth cymdeithasol.**

| | Gwerth Cymdeithasol (Targed o 20%) | Cyfanswm y dyraniad, heb WCCIS | Canran |
|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | £2,034,000 | £11,401,884 | 18% |
| Cwm Taf | £2,061,740 | £12,755,782 | 16% |
| Gwent | £2,005,614 | £15,927,697 | 13% |
| Gogledd Cymru | £2,406,543 | £19,811,811 | 12% |
| Powys | £1,166,000 | £4,308,926 | 27% |
| Gorllewin Morgannwg | £1,353,562 | £11,329,062 | 12% |
| Gorllewin Cymru | £2,498,635 | £11,441,930 | 22% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **£13,526,093** | **£86,977,092** | **16%** |

## Ffigur 12: Gwariant Gwerth cymdeithasol




## Enghraifft dda

Ym Mhowys mae prosiect micro-fentergarwch wedi'i lansio i helpu unigolion i sefydlu busnesau gofal a chymorth bach yn eu hardal. Mae Catalyddion Cymunedol yn cyflawni'r prosiect newydd cyffrous mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, gyda'r nod o ysgogi twf mentrau cymunedol ym Mhowys a fydd yn darparu cymorth wedi'i deilwra i bobl hŷn a phobl anabl.

Mae angen cymorth ar lawer o bobl i fyw eu bywydau, boed hynny gyda gofal personol, help gyda siopa, coginio, neu gwmnïaeth yn unig. Mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r materion hynny a chafwyd ymateb rhagorol gyda 23 o ficrofusnesau bellach yn weithredol ac yn darparu gofal a gwasanaethau cymorth, gyda mwy eisoes ar y rhaglen ddatblygu sy'n eu galluogi i sefydlu mewn ffordd ddiogel, gyfreithiol a chyfrifol.

Gall microfusnesau cymunedol ymateb yn aml yr un diwrnod os bydd sefyllfa frys yn digwydd; yn ddiweddar ymatebodd un entrepreneur i gais brys am arhosiad dros nos, gan alluogi gofalwr di-dâl i gael noson ddi-dor o gwsg. Dyma'r cyfan yr oedd ei angen i'w galluogi i ymadfer a pharhau i gefnogi ei gŵr.

Mae Catalyddion Cymunedol yn dod â'r holl entrepreneuriaid at ei gilydd i rwydwaith cyfoedion fel y gallant gefnogi ei gilydd a darparu gwasanaeth i gwsmeriaid yn ystod salwch a gwyliau.

## System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

Mae WCCIS yn un system ddigidol ddiogel sy'n cael ei defnyddio ledled Cymru i gefnogi trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn well i bobl yn y gymuned. Mae'n un o alluogwyr allweddol y trawsnewid mewn iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol ag amcanion *Cymru Iachach*.

Ar hyn o bryd defnyddir y system gan dros 12,000 o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen mewn 13 ardal awdurdod lleol ledled Cymru, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion, gweithwyr iechyd meddwl, nyrsys cymunedol ac eraill.

Wrth i fwy o sefydliadau lleol ymgymryd â'r system, ac yn enwedig lle mae ar waith ar draws rhai neu bob un o ranbarthau, mae'r manteision y mae'n eu cefnogi drwy alluogi timau gofal i rannu gwybodaeth, integreiddio a chydlynu gofal yn fwy effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol yn cael eu gwireddu'n ehangach.

Mae'r defnydd cynyddol eang o'r system ledled Cymru, ynghyd â gwaith penodol ar sefydlu safonau gwybodaeth, wedi galluogi datblygu galluoedd adrodd i gefnogi targedu adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol yn well i bobl Cymru. Mae'r safonau hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel, gan sicrhau cyfrinachedd unigolion. Dangosodd y datblygiadau hyn yn glir eu gwerth yn ystod cam cynnar argyfwng COVID-19, gan ddarparu gwybodaeth i helpu staff rheng flaen i nodi a chefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn eu cymunedau yn well. Mae'r data cynyddol gyfoethog sy'n seiliedig ar y boblogaeth eisoes yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys gofynion y sefyllfa barhaus o ran COVID-19.

Gan adeiladu ar y buddsoddiad ICF blaenorol ym menter WCCIS, mae dyraniad pellach yn 2019–2020 o £3 miliwn o gyllid ICF wedi cefnogi dau brif gategori gweithgarwch: y cyntaf yw cefnogi rhaglenni WCCIS rhanbarthol, gan sicrhau bod y broses barhaus o gyflwyno'r system yn cyd-fynd â chynnydd a chynlluniau trawsnewid rhanbarthol, ac i gydgysylltu'r gwaith o wireddu a monitro manteision rhanbarthol. Yr ail yw cefnogi a galluogi prosiectau peilot penodol lle mae'r system yn sail i ddatblygiadau gwasanaeth arloesol neu dreialu swyddogaethau newydd. Mae aeddfedrwydd cynyddol y rhaglenni rhanbarthol, sy'n gallu gweithio mewn partneriaeth â thîm cenedlaethol WCCIS, wedi cryfhau'r gwaith o reoli perfformiad y system ac wedi ategu'r datblygiadau gwybodaeth sylweddol a wnaed yn ystod 2020 hyd yma.

## Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) yn wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n rhoi cymorth i bobl awtistig, rhieni a gofalwyr ac mae'n gweithredu ar draws pob un o'r 7 rhanbarth yng Nghymru. Mae'n rhoi:

- cyngor a hyfforddiant i deuluoedd a gofalwyr plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig;
- cyngor, cymorth ac ymyriadau i bobl awtistig, i'w helpu gyda'u bywydau bob dydd;
- hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol, i'w helpu i ddeall anghenion pobl awtistig pan fyddant yn darparu gwasanaethau, gofal a chymorth;
- darparu gwasanaethau a chymorth integredig ar draws awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol;
- timau o weithwyr proffesiynol yn rhoi cymorth yn y gymuned, gan gynnwys ym maes seicoleg, therapi lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a gweithwyr cymorth o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol;
- gwasanaethau diagnostig a chymorth ôl-ddiagnostig i oedolion.

Yn 2019–2020 defnyddiwyd £3 miliwn o gyllid ICF i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r IAS yn rhanbarthol. Cafodd adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru eu buddsoddi hefyd i gefnogi'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae’r Gweinidogion wedi ymrwymo i barhau i ddarparu adnoddau rheolaidd ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (£3m y flwyddyn) y tu hwnt i 2021 i gefnogi gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth. Bydd hyn yn helpu i weithredu'r Cod Ymarfer statudol arfaethedig ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth.

Mae model darparu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth wedi'i ddatblygu ac mae hwn wedi'i addasu i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau rhanbarthol a lleol. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn gweithio gyda phob IAS i ddeall effaith y gwasanaeth a rhannu enghreifftiau o arfer da o ymyriadau i gefnogi pobl awtistig, rhieni a gofalwyr. Gall y rhain gynnwys cyngor o ddydd i ddydd ar fyw, cyflogaeth a budd-daliadau yn ogystal â chymorth i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol.

www.ASDinfoWales.co.uk

Drwy gydol 2019, parhaodd y Gwasanaethau Annibynnol i adeiladu rhwydweithiau a pherthnasoedd effeithiol i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a darparwyr ac i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol yn ogystal ag yn genedlaethol. Mae’r rhwydweithiau a'r perthnasoedd hyn wedi rhoi cyfle i barhau i ddatblygu a gweithredu sesiynau galw heibio gwybodaeth a chyngor ymhellach, hyfforddi staff yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP) gyda sesiynau gwybodaeth a chyngor yn cael eu cynnal yn swyddfeydd y JCP. Mae'r IAS wedi:

- darparu cymorth gwerthfawr i oedolion na all eu hanghenion gael eu diwallu gan wasanaethau anabledd dysgu neu iechyd meddwl, gan lenwi bwlch allweddol yn y gwasanaethau a ddarperir;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwerthfawr i rieni a gofalwyr, nad ydynt yn aml yn gallu cael gafael ar hyn gan wasanaethau asesu niwroddatblygiadol plant, o ystyried y pwysau y mae'r gwasanaethau hyn yn eu hwynebu;
- darparu canolbwynt ar gyfer atgyfnerthu arbenigedd awtistiaeth ac adnodd ar gyfer cydweithio, ymgynghoriaeth, cyngor a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ac uwchsgilio gwasanaethau eraill, yn fwyaf nodedig gwasanaethau iechyd meddwl.



## Enghraifft dda

Mae Apple yn ddyn 25 oed sydd â diagnosis o awtistiaeth. Mae'n byw gartref gyda'i rieni yng Nghaerfyrddin. Cyn i Apple gael ei gyfeirio i'r gwasanaeth am gymorth, roedd yn ynysu ei hun fwyfwy yn ei gartref ac ni fyddai ond yn gadael ei dŷ ar achlysuron prin iawn. Roedd wedi bod yn y sefyllfa hon ers nifer o flynyddoedd ac roedd ei deulu ac yntau ar fin dod i ben eu tennyn. Gan ddefnyddio'r offeryn mesur canlyniadau Spectrum Star, roedd y tîm yn gallu nodi cryfderau a meysydd anawsterau unigolyn Apple lle byddai angen cymorth.

Ar ôl sawl wythnos o ymyrraeth, roedd Apple yn mynd allan gyda'i fam yn y car i archfarchnadoedd ac ar yr achlysuron prin roedd hyd yn oed yn mynd i mewn i'r siop i brynu bwyd. Mae darparu strategaethau ymdopi ar gyfer Apple wedi ei rymuso i gael mynediad i leoliadau na fyddai erioed wedi mynd iddynt o'r blaen. Yna cafodd Apple gyfle i fynychu'r gweithdy ôl-ddiagnostig (PDW), a thros amser dechreuodd gychwyn sgwrs gyda'i gyfoedion a mynegodd dristwch bod y gweithdy wedi dod i ben. Yng ngeiriau Apple "Rwy'n colli’r gweithdy PDW mewn gwirionedd, ro’n i’n ymlaen ato bob wythnos”. Mae Apple bellach yn mynychu'r Fforwm Awtistiaeth yng Nghaerfyrddin. Mae'n gwneud ei drefniadau ei hun i fynychu ac mae’n ymgysylltu â'r mynychwyr eraill (rhywbeth na fyddai byth yn ei wneud o'r blaen). Mae hefyd yn mynychu'r gampfa unwaith yr wythnos lle y mae'n gweithio ar adeiladu ei hunan-barch a'i hunaniaeth.



# Buddsoddiad Cyfalaf y Gronfa 2019–20

Cyfanswm rhaglen gyfalaf yr ICF yn wreiddiol oedd £10 miliwn y flwyddyn ledled Cymru. Cynyddwyd hyn wedyn i raglen tair blynedd gwerth £105 miliwn a oedd yn cynnwys £30 miliwn yn 2018-19, £35 miliwn yn 2019–2020 a £40 miliwn yn 2020-21. Ochr yn ochr â'r cynnydd mewn cyllid, mae Gweinidogion wedi rhoi pwyslais cryfach ar brosiectau sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall sefydliadau tai ei wneud i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol gan ganolbwyntio'n benodol ar atebion a arweinir gan lety i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod y gronfa yw cefnogi prosiectau sy'n lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth drosglwyddo gofal. Darparwyd cymorth ar gyfer amrywiaeth o brosiectau sy'n cyflawni'r nodau hyn gan gynnwys:

- llety diogel i blant ag anghenion cymhleth;
- ltai gofal ychwanegol a gwasanaethau integredig i bobl hŷn;
- lcartrefi yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu;
- lcyfleusterau sy'n cryfhau gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer y grwpiau hyn a grwpiau eraill gan gynnwys y rhai sy'n dioddef o ddementia yn ogystal â'u gofalwyr.


Yn ystod 2019–2020, ac er gwaethaf yr her a gyflwynwyd gan y pandemig ym mis Mawrth, ceir enghreifftiau ym mhob rhanbarth o sefydliadau tai yn chwarae rôl gryfach i leihau'r beichiau ar y GIG a gofal cymdeithasol. 2019–2020 yw'r ail o raglen tair blynedd ac roedd llawer o brosiectau ar y gweill a fydd yn agor eu drysau ym mlwyddyn olaf y rhaglen.

Mae cyfalaf yr ICF yn parhau i fod yn gatalydd i ddwyn ynghyd raglenni cyfalaf eraill Llywodraeth Cymru fel y Grant Tai Cymdeithasol a Buddsoddiad Seilwaith GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau amlweddog ledled Cymru gan gynnwys gwasanaethau/canolfannau cymunedol integredig ochr yn ochr â datblygiadau tai fforddiadwy.

Yn ogystal â'r prosiectau strategol mwy, mae buddsoddiad cyfalaf yr ICF hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu atebion darparu gwasanaethau integredig, offer arbenigol fel technoleg gynorthwyol a chymhorthion ac addasiadau ar gyfer cartrefi pobl. Mae'r rhain i gyd yn hanfodol i leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth drosglwyddo gofal. Rydym wedi darparu rhai astudiaethau achos isod o brosiectau a gyflwynwyd drwy fuddsoddiad cyfalaf ICF yn 2019–2020.



## Buddsoddiad cyfalaf Cymru Gyfan




Troednodyn: Gall prosiectau sy'n elwa o gyfalaf ICF wneud hynny dros nifer o flynyddoedd. Felly gall rhai prosiectau a ariannwyd yn 2019–2020 hefyd dderbyn cyllid ychwanegol mewn blynyddoedd ariannol eraill. Yn ogystal, gallai prosiectau a ariennir gyda chyfalaf ICF fod o fudd i nifer o Feysydd Blaenoriaeth. Er enghraifft, gallai safle a ddatblygwyd i ddarparu gwasanaethau integredig neu ddarparu atebion tai fod o fudd i bobl hŷn a phobl â dementia, felly bydd y ddau faes blaenoriaeth wedi'u nodi fel rhai sy'n elwa. Dyna pam mae'r ffigurau yn y tabl yn uwch na chyfanswm y dyraniad cenedlaethol.

## Buddsoddiad yn ôl Math o Brosiect 2019–2020



| Mathau o Brosiectau Cyfalaf | Nifer y prosiectau | Gwariant |
|---|---|---|
| **Atebion a arweinir** gan lety i iechyd a gofal cymdeithasol megis prynu ac ailfodelu eiddo ar gyfer cyfleusterau arbenigol ar draws meysydd y grwpiau blaenoriaeth, darparu gwasanaethau seibiant a darpariaeth cam-i-fyny/cam-i-lawr. | 37 | £15,473,648 |
| **Cyfleusterau integredig** (fel dull 'hyb' rhanbarthol ar gyfer darparu gwasanaeth a arweinir gan yr ICF). Mae hyn wedi cynnwys ailfodelu adeiladau yn ogystal â darpariaeth newydd. | 16 | £3,279,808 |
| **Integreiddio newydd ac arloesol yn maes iechyd, gofal cymdeithasol a/neu dai** megis cymorth i bentrefi dementia yn ogystal ag estyniadau i ysgolion arbenigol. | 9 | £6,315,411 |
| **Prosiectau cyfarpar ar raddfa fwy** I gefnogi integreiddio ac amcanion yr ICF megis gwelyau arbenigol peripatetig i'w defnyddio dros dro yng nghartrefi pobl. | 0 | £0 |
| **Ailfodelu neu addasu adeiladau ar raddfa fawr** megis adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes i ddarparu gwasanaethau integredig newydd/wedi'u trawsnewid ar draws pob grŵp maes blaenoriaeth. | 13 | £3,289,975 |
| **Astudiaethau dichonoldeb** Gwariant i ddangos tystiolaeth o ddichonolrwydd buddsoddiad cyfalaf mwy, neu i ymchwilio iddo. | 0 | £0 |
| **Rhaglen Gyfalaf Ddewisol** prosiectau o dan £100,000 ac o fewn tua 20% o ddyraniad pob rhanbarth ar gyfer prosiectau ar raddfa lai. | 140 | £6,452,764 |
| **Cyfanswm** | | **£34,811,606** |

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

Cefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ar waith yn 2019–2020.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd fis Chwefror 2018 yn datblygu'r ymrwymiadau ynghylch dementia a nodwyd yn Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb. Mae hefyd yn amlinellu'r ystod o randdeiliaid sy'n gallu cefnogi'r agenda hon a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wneud newid mawr. Rydym wedi datblygu'r cynllun hwn ar y cyd â'r rheini sy'n gwybod orau beth sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau dementia a sicrhau eu bod yn canolbwyntio o ddifrif ar yr unigolyn, sef y rheini sydd â phrofiad o ddementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr a darparwyr gwasanaethau.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun, ymrwymwyd £10 miliwn o fuddsoddiad gan y llywodraeth bob blwyddyn o 2018–2019. Dyrannwyd £9m o'r buddsoddiad gwerth £10 miliwn gan y llywodraeth i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol drwy'r ICF i ddatblygu dull iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd o ymdrin â chymorth dementia.

Roedd disgwyl i gynigion a gyflwynwyd ddangos sut yr oeddent wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu eu cynlluniau buddsoddi, ystyried rôl y sector gwerth cymdeithasol o ran cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun a dangos mynediad teg ar draws y boblogaeth gan roi ystyriaeth briodol i'r holl nodweddion gwarchodedig. Roedd disgwyl hefyd i brosiectau naill ai gefnogi prosiectau newydd neu ehangu neu ddatblygu prosiectau sy'n bodoli. Roedd hefyd yn ofynnol iddynt ddangos sut yr oeddent yn cefnogi'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, sef:

- bydd unigolion yn deall y camau y gallant eu cymryd i leihau'r risg o gael dementia neu i ohirio ei ddechrau
- mae'r boblogaeth ehangach yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda dementia ac yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i'w helpu nhw
- mae pobl yn ymwybodol o arwyddion cynnar dementia, pwysigrwydd diagnosis amserol, ac yn gwybod ble i fynd am gymorth
- mae pobl yn cael diagnosis yn gynt, sydd felly'n eu galluogi i gynllunio at y dyfodol a chael gafael ar gymorth a gofal cynnar os oes angen
- mae'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd yn gallu derbyn gofal a chymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- mae gwaith ymchwil yn cael cefnogaeth er mwyn ein helpu i ddeall yn well achosion dementia a sut i reoli'r clefyd, ac yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, i fod yn gyd-ymchwilwyr
- mae gan staff y sgiliau i'w helpu i adnabod pobl â dementia a theimlo'n ddigon hyderus a chymwys i gefnogi anghenion yr unigolyn ar ôl cael diagnosis.

2019–2020 oedd y flwyddyn weithredu lawr ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gallu datblygu eu cynlluniau buddsoddi'n llawnach yn erbyn anghenion eu poblogaeth. Cafodd 90 o brosiectau eu cefnogi yn ystod y flwyddyn. Drwy'r ICF yn 2019–2020 mae amrywiaeth o brosiectau wedi'u cefnogi, gan gynnwys:

- cymorth ychwanegol i unigolion a theuluoedd yn unol â'r egwyddorion tîm o amgylch yr unigolyn er enghraifft gwell triniaeth yn y cartref a mynediad at seibiant hyblyg
- gwella gwasanaethau asesu cof i gefnogi diagnosis amserol
- hyfforddi staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn *Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru* i wella cymwyseddau dysgu ar lefel fedrus
- cynyddu nifer y cymunedau Cyfeillion Dementia a chyllid penodol ar gyfer grwpiau trydydd sector/ cymunedol i gynyddu nifer y gweithgareddau sy'n ystyriol o ddementia sydd ar gael
- cynlluniau cysylltwyr cymunedol sy'n helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn atal yr angen am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch.

## Enghraifft dda

Mae Tom yn 69 oed. Mae ganddo ddiagnosis dementia ac mae'n byw gartref gyda'i wraig yn y Gogledd. Roedd ymddygiad Tom gartref yn dirywio gyda mwy o aflonyddwch a rhwystredigaeth wedi'i anelu at ei wraig. Roedd Tom yn aml yn cysgu yn ystod y dydd ac yn dweud ei fod wedi diflasu, ond roedd newid syml yn gwneud gwahaniaeth mawr. Trafododd y Gweithiwr Cymorth Dementia pa weithgareddau rheolaidd yr oedd Tom yn mwynhau eu gwneud o'r blaen. Daeth i'r amlwg bod Tom yn arfer mwynhau cwisiau a dominos a'i fod yn gasglwr brwd o gerddoriaeth ond nad oedd bellach yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymdeithasol. Gwahoddwyd Tom i ymuno â'r grŵp cymdeithasol wythnosol a gynhelid gan y Gweithiwr Cymorth Dementia lle'r oedd llawer o'r gweithgareddau yr oedd Tom yn eu mwynhau yn digwydd. Mae Tom bellach yn mynychu bob wythnos. Ers mynychu'r grŵp, mae gwraig Tom wedi adrodd bod ei ymddygiad wedi gwella, mae eu perthynas yn ôl ar ei gorau ac mae gan Tom fwy i sgwrsio amdano.

## Enghraifft dda

Mae grwpiau *Darllen i Gofio* Powys a gweithgareddau cymorth eraill sy'n gysylltiedig â dementia yn cael eu cynnal ar draws 10 llyfrgell ym Mhowys, gan ddefnyddio adnoddau unigryw a chysylltiadau lleol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Mae llyfrgell Ystradgynlais wedi denu gwirfoddolwyr gwych sydd â phrofiad o weithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia. “Mae Chris yn ddyn ifanc ag awtistiaeth sy'n cynnal y sesiynau galw heibio digidol ddau brynhawn yr wythnos. Mae Chris wedi dod yn ased i'r tîm, gan ddangos amynedd ac empathi anhygoel wrth esbonio i gwsmeriaid sut i ddefnyddio eu ipad newydd, neu wrth greu rhestr cysylltiadau yn eu ffôn symudol newydd. Dywedodd gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu 'croesawu', eu 'gwerthfawrogi' ac yn cael teimlad o les oherwydd rhyngweithio â chyfranogwyr. Dywedodd 95% o'r cyfranogwyr eu bod yn mwynhau'r sesiynau darllen. Erbyn hyn mae 17 o wirfoddolwyr gweithgar yn rhan o'r prosiect a chafodd tua 222 o lyfrau dementia Darllen yn Dda eu benthyg.



# Dysgu gwersi ac edrych ymlaen

Yn ystod 2019–2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Archwilio Cymru 2019 o'r ICF. Er bod yr adolygiad yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r gronfa'n ei chwarae o ran hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a hyrwyddo'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gwnaeth nifer o argymhellion i gryfhau'r broses o'i chyflwyno a'i rheoli.

Rydym wedi cyflwyno newidiadau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn unol â disgwyliadau Archwilio Cymru. Er enghraifft:

- gwnaethom fapio'r holl ffrydiau ariannu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei alinio'n well a helpu partneriaid i ddefnyddio dull mwy strategol o ddefnyddio adnoddau cyfunol;
- daeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â phartneriaid ynghyd fis Chwefror 2020 i glywed eu barn am y ffrydiau ariannu a beth y gellir ei wneud i wella dysgu ar y cyd a'r heriau ynghylch prif ffrydio;
- adolygwyd llywodraethiant yr ICF er mwyn sicrhau bod trefniadau craffu priodol ar waith ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol ar ran cyrff sofran.

Gwnaethom hefyd gyflwyno trefniadau adrodd newydd mwy cadarn gyda phwyslais clir ar ddangos effaith prosiectau ar bobl. Mae'r newidiadau hyn bellach yn dechrau dwyn ffrwyth, ac o ganlyniad rydym wedi gallu adlewyrchu yn yr adroddiad hwn fwy o enghreifftiau o fanteision ac effaith yr ICF ar lefel genedlaethol.

Mae'r prosiectau sydd wedi'u datblygu hyd yma drwy'r Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid nid yn unig wedi dod yn rhan hanfodol a chreiddiol o'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond maent hefyd wedi chwarae rôl sylfaenol yn ein hymateb i COVID-19. Er mwyn cydnabod llwyddiant hyd yma, mae Gweinidogion wedi penderfynu ymestyn y ddwy gronfa tan fis Mawrth 2022.

Bydd y 12 mis ychwanegol o gyllid – sef £89 miliwn o refeniw ICF a £40 miliwn o gyfalaf ICF, ynghyd â £50m o refeniw i'r Gronfa Trawsnewid, yn rhoi sefydlogrwydd i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a dilyniant i wasanaethau iechyd a gofal allweddol, ac yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer ein camau sefydlogi ac ailadeiladu. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfnod hwn i lunio unrhyw raglen ariannu ranbarthol bosibl yn y dyfodol i gefnogi integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol a gomisiynwyd gennym, Gwerthusiad Canol Cyfnod o'r Gronfa Trawsnewid, ac adolygiad Archwilio Cymru o'r ICF.


Byddwn yn parhau i ymgorffori ymhellach y dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) wrth fesur effaith yr ICF a'r TF. Mae arweinwyr rhanbarthol a rheolwyr prosiect wedi cael hyfforddiant a chymorth RBA i sicrhau y gellir datblygu dull mwy safonol a fydd yn ein galluogi i ddisgrifio effeithiau'r ICF ar lefel prosiect a rhaglen. Mae gwaith yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r TF a rhanddeiliaid eraill i nodi modelau cyflawni thematig allweddol a datblygu cymunedau ymarfer a fydd yn helpu i lunio fframweithiau mesur canlyniadau ar gyfer mathau allweddol o fodel cyflawni wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau gartref o'r ysbyty, gofal seiliedig ar le; iechyd emosiynol a meddyliol; a gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg. Mae'r hyn a ddysgir o'r ICF a'r TF yn golygu y bydd fframweithiau mesur a gwerthuso canlyniadau wedi'u cynnwys yn unrhyw drefniadau ariannu yn y dyfodol o'r cychwyn cyntaf.

Wrth i ni symud ymlaen i flwyddyn olaf yr ICF, rydym yn awyddus i ddysgu gwersi a manteisio ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Bydd ein gwerthusiad annibynnol o'r gronfa, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut mae'r ICF wedi cefnogi newid yn y system, yn helpu i atal canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol gwael i bobl, ac i ba raddau y mae prosiectau ICF wedi helpu i leihau'r pwysau ar y system iechyd a gofal. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad, sydd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn yr haf, yn cael eu defnyddio i lywio'r cyfeiriad ar gyfer cyllid rhanbarthol yn y dyfodol.


# Proffiliau Rhanbarthol

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro


### Dyraniadau Caerdydd a'r Fro





### Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth (gweler y tabl islaw'r siart)



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol





## Gwerth Cymdeithasol


| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | £2,034,000 | £11,401,884 | 18% |

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf


### Dyraniadau Cwm Taf





### Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol




## Gwerth Cymdeithasol


| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Cwm Taf | £2,061,740 | £12,755,782 | 16% |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent


## Dyraniadau Gwent




## Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol





## Gwerth Cymdeithasol


| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Gwent | £2,005,614 | £15,927,697 | 13% |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru


## Dyraniadau Gogledd Cymru





## Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol




## Gwerth Cymdeithasol


| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | £2,406,543 | £19,811,811 | 12% |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

## Dyraniadau Powys





## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




* Sylwer bod elfen o adnodd y Cynllun Gweithredu Dementia wedi'i chynnwys o fewn y flaenoriaeth pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor oherwydd arian cyfatebol prosiectau unigol.

## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol





## Gwerth Cymdeithasol

| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Powys | £1,166,000 | £4,308,926 | 27% |

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg


### Dyraniadau Gorllewin Morgannwg




### Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol





## Gwerth Cymdeithasol

| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Gorllewin Morgannwg | £2,498,635 | £11,441,930 | 22% |

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru


## Dyraniadau Gorllewin Cymru




## Gwariant Gwirioneddol yn ôl Maes Blaenoriaeth



## Gwariant yn ôl Math o Brosiect




## Buddsoddiad Rhanbarthol, Is-ranbarthol, Anranbarthol




## Gwerth Cymdeithasol

| | Gwariant Gwirioneddol Gwerth Cymdeithasol | Cyfanswm y dyraniad heb WCCIS | Canran Wirioneddol (Targed o 20%) |
|---|---|---|---|
| Gorllewin Cymru | £2,498,635 | £11,441,930 | 22% |

# Atodiad (Astudiaethau achos)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Caerdydd a'r Fro: Porth i Ofalwyr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru

## Gofalwyr

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £4,991

**Disgrifiad:**

Mae'r Porth i Ofalwyr yn darparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg gan eu helpu i wneud yn fawr o'u bywydau, ochr yn ochr â'u rôl ofalu a chynnal eu hannibyniaeth. Mae'r tîm yn helpu gofalwyr i ddeall pa gymorth sydd ar gael iddynt, cael gafael ar wasanaethau lleol ac yn nodi'r gwasanaethau newydd sydd eu hangen i helpu gofalwyr. Mae'r Porth yn codi ymwybyddiaeth o'r materion y mae gofalwyr yn eu hwynebu ac yn hwyluso mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu.

**Canlyniadau perfformiad:**

Mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i gyflawni sawl peth nodedig, fel y gwelir yn yr enghraifft hon, mewn perthynas â'r cymorth a roddwyd i ofalwr gyda mab awtistig ac a oedd hefyd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD):

- gofal seibiant i roi amser personol i'r gofalwr fel y gallai ymlacio
- argymhellwyd bod y gofalwr yn gwneud cais am Grant Covid-19 Brys i gael cyfrifiadur newydd, a fu'n llwyddiannus
- trefnwyd sesiynau therapi cerdd i'r mab er mwyn helpu gydag ysgogiad.

**Dyfyniad:**

*"Diolch am y wybodaeth a diolch am wrando ddoe. Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi eich tosturi a'ch dealltwriaeth."*
Gofalwr Mrs SA.

# Caerdydd a'r Fro: Canolfan Adnoddau'r Glasoed (ARC)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Plant ar Gyrion Gofal

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £390,000

**Disgrifiad:**

Mae'r Ganolfan yn darparu cymorth cofleidiol dwys i blant a phobl ifanc rhwng 11 ac 17 oed sydd mewn perygl o ymuno â'r system ofal. Mae'r heriau sy'n wynebu teuluoedd unigol yn unigryw, ac felly mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r teulu cyfan lle bo hynny'n briodol i ddatblygu cynllun diogelwch unigol. Mae hyn er mwyn annog gwelliant yn sefyllfa'r person ifanc, gyda'r nod o osgoi lleoliad parhaol neu dros dro mewn gofal cymaint ag sy'n bosibl.

Helpodd y gwasanaeth Heeba a'i mam a oedd yn profi bywyd anodd iawn. Cyn ymuno ag ARC, cafodd Heeba ei thaflu allan o'r ysgol a byddai'n mynd ar goll yn rheolaidd. Roedd Heeba'n barod i siarad â'r staff yn ARC, roedd yn ymddiried ynddynt ac yn ei ddisgrifio fel amgylchedd diogel. Roedd Heeba yn teimlo bod ARC yn lle therapiwtig iawn ac roedd yn ei fwynhau oherwydd ei bod yn cael mynegi ei theimladau mewn ffordd na allai gyda geiriau. Mae mwy o wybodaeth am y Ganolfan ac i glywed am Heeba yma:
https://youtu.be/B1Uu8_sOILc

**Canlyniadau perfformiad:**

- **50%** mae 50% o'r bobl ifanc dan sylw wedi teimlo'n fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau cadarnhaol.
- **25%** mae 25% o'r bobl ifanc dan sylw wedi dangos presenoldeb gwell yn yr ysgol hyd yn hyn
- **50%** mae 50% o bobl ifanc wedi dweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth hyd yn hyn
- **25%** mae 25% o ymarferwyr wedi nodi gwell gwydnwch ymhlith y bobl ifanc y maent yn eu cefnogi

**Dyfyniad:**

*"Yn gyntaf oll, daethom i adnabod ein gilydd ac yna ro'n i'n ymddiried yn Katie. Roedd modd i fi gyfathrebu â hi a byddai'n fy helpu gyda'n problemau, beth bynnag oedden nhw. Buom yn siarad am gyfeillgarwch da a drwg a sut i osgoi rhoi fy hun mewn sefyllfaoedd gwael."*
Heeba

# Caerdydd a'r Fro: Ty Gwyn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Plant ac Oedolion Ifanc ag Anghenion Cymhleth

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £100,000

**Disgrifiad:**

Mae Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn yn Nhrelái Caerdydd yn derbyn cyllid gan gronfa gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a Chyngor Caerdydd dros gyfnod o dair blynedd i ddarparu cyfleusterau wedi'u huwchraddio ar gyfer disgyblion a staff. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn cyllid refeniw'r Gronfa Gofal Integredig (£100,000) i ddarparu tri Swyddog Cyfleoedd Dydd sy'n gweithio yn yr ysgol ochr yn ochr â'r disgyblion i'w helpu i baratoi a phontio i'w bywyd fel oedolyn, gan eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae gan y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Tŷ Gwyn anghenion dysgu ychwanegol a/neu anghenion cymhleth. Mae'r prosiect yn galluogi'r ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion a'r boblogaeth gynyddol o blant sydd angen lleoliadau arbenigol ac, o ganlyniad, mae angen y gofod ystafell ddosbarth a'r ardaloedd ymyrraeth angenrheidiol lle gellir darparu darpariaeth arbenigol ar draws Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Mae'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yng ngham 1 yn cynnwys:

- Darparu tair ystafell ddosbarth ychwanegol
- Cyfleusterau newid
- Ardal chwarae meddal
- Adnewyddu gofod swyddfa ac
- Ystafell digwyddiadau aml-ddefnydd.

Bydd y cam nesaf yn darparu tair ystafell ddosbarth ychwanegol yn yr ysgol. Mae'r ehangu'n galluogi disgyblion yn yr ysgol i gael mynediad at nyrsys, therapyddion, gweithwyr cymorth a meddygon ar y safle sy'n cynorthwyo gyda'u hanghenion meddygol.

**Allbynnau a Chanlyniadau:**

- Chwe ystafell ddosbarth ychwanegol i ddarparu gofod i 30 o blant ag anghenion dysgu (yn dilyn y ddau gam gwaith).
- Ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg i blant ag awtistiaeth ac anghenion cymhleth.
- Darparu addysg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei harwain gan ganlyniadau.
- Ymateb i'r angen cynyddol i weithwyr proffesiynol gydweithio ar draws asiantaethau ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth drwy ddarparu cyfleoedd cyd-leoli.
- Gwella cyfleoedd y rhai ag anghenion cymhleth gyda gweithgareddau a ddatblygwyd ar y safle.

**Dyfyniad:**

*"Mae cael yr holl weithwyr proffesiynol hyn yn yr ysgol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni. Gan fod fy merch yn eu hadnabod, mae hi hefyd yn ymlacio mwy.  Maen nhw'n wych am ei helpu gyda'r hyn sydd ei angen arni."*

# Cwm Taf Morgannwg: Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pobl Hŷn

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** **£150,000**

**Disgrifiad:**

Nod y prosiect hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd creu methodoleg ‘ymarfer i gomisiynu’ gynaliadwy ac effeithlon sy’n comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Mae wedi golygu bod modd rhannu a chydgysylltu gwybodaeth a deallusrwydd; gan gynllunio gwasanaethau ar draws y bartneriaeth ranbarthol i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth. Mae darparwyr wedi bod yn ganolog yn y broses hon, sydd wedi golygu bod modd gwneud arbedion effeithlonrwydd staffio a nodi unigolion lle gallai llety cam-i-lawr amgen fod yn briodol.

Nododd Darparwr Gofal fod gan Mrs L botensial ar gyfer cynnydd. Roedd Mrs L wedi gwrthod gweithio gyda therapyddion yn yr ysbyty/cymuned o’r blaen, gan arwain at sefyllfa lle’r oedd hi’n cael ei nyrsio yn y gwely. Defnyddiwyd dull perthynol, i gefnogi Mrs L i ymgysylltu â staff gofal a threialu’r technegau/offer newydd, a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar ei lles ac fe’i symbylwyd gan ei chynnydd ei hun i geisio gwella ymhellach.

Roedd y gwaith yn cael ei wneud ar gyflymder Mrs L er mwyn ei chefnogi gyda’i hawydd i gyflawni ei nod o fynd allan o’r tŷ. Yn y pen draw roedd Mrs L yn fwy hyderus yn ei galluoedd. Ar ôl ychydig wythnosau daeth yn amlwg bod Mrs L yn dod yn ddigon cryf i drosglwyddo heb unrhyw offer. Cafodd y pecyn gofal ei ostwng i ddwy alwad y dydd gan un gofalwr ac mae Mrs L bellach yn mynd allan gyda’i theulu yn y car.

Llwyddodd Mrs L i gyflawni ei nod cyffredinol o fynd allan i’r gymuned leol gyda’i theulu, sef yr hyn oedd bwysicaf iddi hi a chyfrannodd hyn at ei lles cyffredinol. Arweiniodd hyn at sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **73** | Cwblhawyd 73 o adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau a arweiniodd at newidiadau i’r gwasanaeth a gomisiynwyd |
| **51** | o asesiadau gyda’r ffocws ar ganlyniadau |
| **100%** | Roedd 100% o’r 124 o bobl a ailaseswyd ac a adolygwyd yn gallu derbyn gofal gartref |

**Dyfyniad:**

*"Nid oes dyfyniad uniongyrchol ar gael ond mae’r gwasanaeth wedi cael adborth cadarnhaol iawn. Mae ei effaith ar unigolion wedi bod yn sylweddol ac yn bersonol i bob person a aseswyd ac a adolygwyd. Mae’r gwaith a wnaed wedi arwain at gefnogi unigolion i archwilio eu canlyniadau personol eu hunain a’u cynorthwyo i wella ansawdd eu bywydau."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf Morgannwg: Cymunedau Cysylltiedig

## Hwb Datblygu Cymunedol – Pobl Hŷn

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £200,000

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect "Cymunedau Cysylltiedig" ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddull traws-sector sy'n ceisio cefnogi unigolion i ddatblygu eu rhwydweithiau cymorth yn eu cymunedau, yn hytrach na gofal a reolir, lle mae dull o'r fath yn briodol. Mae'r prosiect hwn wedi creu pum rôl cysylltydd cymunedol i ymgysylltu â'r trydydd sector a'i ddatblygu i wella iechyd a lles y poblogaethau sydd wedi'u targedu. Mae'r prosiect yn cefnogi pobl drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA), gan gysylltu neu gyfeirio pobl at gyfleoedd cymunedol priodol sy'n diwallu eu hanghenion.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **116** | Mae 116 o bobl wedi derbyn cymorth drwy atgyfeiriadau i'r rhaglen Cymunedau Cysylltiedig a chymorth penodol y rolau llywio neu rolau cymunedol a ariennir. |
| **9** | Mae 9 cyfle atal cymunedol newydd wedi'u sefydlu. |
| **19** | Cefnogwyd 19 o sefydliadau i ddarparu cyfleoedd atal a lles. |
| **86** | Gwnaed 86 o gysylltiadau ar gyfer pobl leol o fewn y cyfleoedd a nodwyd. |
| **60** | Mae yna 60 o bartneriaid yn ymwneud â'r gwaith atal a lles o fewn y rhwydwaith. |

**Dyfyniad:**

*"Dwi'n dawelach fy meddwl wrth fynd allan i siopa. Roeddwn i'n tueddu i ohirio pethau gan fy mod i'n poeni am ba mor bell y byddai'n rhaid i mi gerdded o'r car i'r archfarchnad ac yn ôl."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwm Taf Morgannwg: Disabled Children's Team (DCT)

## Darpariaeth Gymunedol - Plant ag anghenion cymhleth

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £100,000

**Disgrifiad:**

Mae Care2Play yn gynllun sydd wedi'i gyflwyno yn Rhondda Cynon Taf i gefnogi pob plentyn i gael mynediad i sesiynau chwarae beth bynnag fo'u hanghenion. Mae'r cynllun yn gweithio ochr yn ochr â chynnig chwarae mynediad agored y Cyngor, i sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael mynediad i chwarae, gyda chymorth os oes angen, ochr yn ochr â'u brodyr a'u chwiorydd yn hytrach na gorfod mynychu darpariaeth amgen dim ond er mwyn diwallu eu hanghenion ychwanegol.

Mae'r cynnig Care2Play yn caniatáu i blant ag anghenion ychwanegol, na fyddent fel arfer yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, wneud hynny ochr yn ochr â'u brodyr a'u chwiorydd. Hyfforddwyd 50 o staff fel rhan o ddiwrnod lles proffesiynol i ddarparwyr chwarae, gan gynnwys agweddau fel cymorth 1:1, strategaethau ar gyfer plant ag Awtistiaeth ac asesu risg ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **2004** | Darparwyd 2004 o sesiynau Care2Play. |
| **271** | Mae 271 o blant a phobl ifanc yn defnyddio sesiynau Care2Play. |
| **11** | Mae 11 o deuluoedd wedi'u hatgyfeirio o wasanaethau teuluol cydnerth. |
| **190** | Mae 190 o deuluoedd wedi'u hatgyfeirio o'r Tîm Plant Anabl. |
| **28** | Cynhaliwyd 28 o sesiynau ieuenctid â chymorth. |

**Dyfyniad:**

*"Mae rhieni'n dymuno i'w plant barhau i gymryd rhan yn y rhaglen. Mae bod yn rhan o ddarpariaeth prif ffrwd wedi galluogi'r plant i ddatblygu sgiliau a bod yn rhan o brofiadau na fydden nhw wedi ymwneud â nhw fel arall, gan ehangu profiadau a datblygu annibyniaeth."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwent:
# Dim Mwy o Rwystrau

## Pobl ag Anabledd Dysgu

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £97,176

**Disgrifiad:**

Amcan y prosiect Dim Mwy o Rwystrau oedd comisiynu rhaglen gyflogaeth â chymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer unigolion ag Anawsterau Dysgu.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| 600 | Cefnogwyd 600 o unigolion rhwng 2018 a 2020. |
| 72 | Manteisiodd 72 o unigolion ar Hyfforddiant Mentor Cymheiriaid. |
| 51 | Mae 51 o unigolion wedi cael gwaith. |
| 41 | Cyflawnodd 41 o unigolion Wobr Mentor Cymheiriaid Lefel Un Agored Cymru. |
| 4 | Aeth 4 o bobl ymlaen i ennill Gwobr Mentor Cymheiriaid Lefel Dau Agored Cymru. |
| 22 | Cefnogwyd 22 o leoliadau gwaith. |
| 87 | Mae 87 o bobl wedi sicrhau lleoliadau gwirfoddoli. |

**Dyfyniad:**

*"Mae bod yn rhan o'r prosiect wedi rhoi hwb i'm hyder a dwi wedi gallu dysgu llawer o sgiliau newydd. Dwi'n gobeithio cael mwy o gymwysterau yn y dyfodol a bydd y rhain yn fy helpu i ddysgu sgiliau bywyd newydd fel coginio pryd iach, fel y galla'i wneud mwy i helpu fy mam gartref."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwent:
# Sgiliau Byw

## Plant ag Anghenion Cymhleth

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £200,000

**Disgrifiad:**

Mae Skills for Living yn cefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd wedi profi gofid emosiynol sylweddol ac sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Nod y prosiect yw helpu i leihau emosiynau anodd a strategaethau ymdopi niweidiol a chefnogi pobl ifanc i reoli eu hemosiynau'n well ac annog hunan-barch cadarnhaol. Darperir cymorth seicolegol drwy Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT), therapi sy'n seiliedig ar sgiliau a gynigir yn unigol ac mewn sesiynau grŵp, gyda'r nod o wella iechyd emosiynol a gwydnwch pobl ifanc. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio i wella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr a gweithwyr proffesiynol drwy gynnig hyfforddiant ar sut i gymhwyso Therapi Ymddygiad Dialectig y tu allan i'r sesiynau.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| 53 | o bobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy Therapi Ymddygiad Dialectig unigol ac mewn grŵp. |
| 90% | Nododd dros 90% o bobl ifanc bod eu hwyliau, eu gweithrediad a'u gallu i ddatrys problemau wedi gwella yn dilyn ymyrraeth. |
| 85% | Dywedodd 85% o bobl ifanc fod yna leihad yn yr ymddygiadau cymryd risg. |

**Dyfyniad:**

*"Mae bellach yn byw mewn lleoliad byw a rennir, mae ganddo swydd amser llawn a grŵp cyfeillgarwch sefydlog... mae'n parhau i gysylltu â'r gwasanaeth ac yn dod yn ôl fel cleient hŷn i gefnogi eraill i adeiladu eu sgiliau ymdopi."*

# Gwent: Cynllun Grantiau Bach Gofalwyr Estynedig Gofalwyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gofalwyr, gan gynnwys Gofalwyr Ifanc

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £100,000 Refeniw a £126,000 Cyfalaf

**Disgrifiad:**

Mae'r Cynllun Grantiau Bach i Ofalwyr yn rhoi cyfle i ofalwyr o bob oed wneud cais am gyllid uniongyrchol a fydd o fudd i'w rolau gofalu o fewn pedair ardal benodol

- Hanfodion Gofalwyr – cymorth grant tuag at gost darn o offer cartref.
- Saib i Ofalwyr – cymorth grant fel er mwyn rhoi saib i rywun o'i rôl ofalu.
- Mynediad i Ofalwyr – cymorth grant tuag at gost gwersi gyrru neu fathau eraill o drafnidiaeth.
- Sgiliau Gofalwyr – rhoi cymorth i ddysgu sgiliau newydd, eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith neu eu galluogi i fod â diddordeb newydd y tu allan i'w rôl ofalu.

Mae'r prosiect yn elwa ar gyllid refeniw a chyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, gan gefnogi'r rhanbarth i ddarparu cymorth penodol i ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc a'r egwyddor o hyrwyddo a manteisio i'r eithaf ar atebion byw'n annibynnol a lleihau'r angen am gymorth statudol.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| 452 | Derbyniwyd 452 o geisiadau; mae 90% ohonynt wedi bod yn llwyddiannus. |
| 271 | Nodwyd 271 o ofalwyr, nad oeddent yn hysbys i'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr o'r blaen. |
| 167 | Prynwyd a chefnogwyd 167 o eitemau cartref 'hanfodol' drwy fuddsoddiad cyfalaf. |

**Dyfyniad:**

*"Mae wir yn mynd i'm helpu i ..... Dwi mor ddiolchgar i Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru am yr holl gymorth y maen nhw wedi'i roi i mi. Fyddwn i erioed wedi gallu fforddio dysgu gyrru heb y grant."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru: Weithiwr Cymorth Dementia

## Pobl â dementia

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** **£691,517**

**Disgrifiad:**

Nod y prosiect hwn yw darparu cymorth 'beth sy'n bwysig' i bobl sy'n byw gyda dementia drwy ychwanegu adnoddau arbenigol ychwanegol at y Timau Adnoddau Cymunedol ledled Gogledd Cymru. Timau o Nyrsys Cymunedol, meddygon teulu, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion a staff y sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymunedol di-dor i ddinasyddion yw'r Timau Adnoddau Cymunedol.

Recriwtiwyd gweithwyr cymorth dementia arbenigol i bob Tîm Adnoddau Cymunedol i gynyddu lefel y cymorth i ddinasyddion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Maent yn darparu cymorth allgymorth hyblyg ar ffurf 'tîm o amgylch yr unigolyn'.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **470** | Cefnogwyd 470 o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru gan Weithiwr Cymorth Dementia yn ystod 2019-20. |
| **22** | Cefnogwyd 22 i symud i gyfleuster tai gofal ychwanegol newydd a adeiladwyd yn bwrpasol yn ystod y flwyddyn. |

**Dyfyniad:**

*"Mae fel cael yr hen Tom yn ôl. Mae e gymaint yn hapusach nawr. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn arwydd bod ei ddementia wedi gwaethygu ond alla i ddim credu'r newid nawr."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gogledd Cymru: Cymorth Dilyniant

## Pobl ag Anableddau Dysgu

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £471,351

**Disgrifiad:**

Mae Cymorth Dilyniant y Gronfa Gofal Integredig yn brosiect cyfyngedig o ran amser sy'n darparu cymorth tymor byr i helpu unigolion ag anableddau dysgu i gyflawni eu canlyniadau lles cytûn. Mae hyn yn cynnwys derbyn cymorth ar yr adeg o angen a datblygu ymyriadau technolegol lle y bo'n bosibl. Mae'r prosiect yn defnyddio byngalo asesu fel adnodd i hwyluso asesiad therapi galwedigaethol o anghenion person ag anableddau dysgu mewn perthynas â thai a chymorth.

Nod canlyniadau'r prosiect yw annog oedolion ag anableddau dysgu i fod yn fwy annibynnol a rhoi hwb i'w hyder a'u hunanwerth gan ddefnyddio gweithgareddau bob dydd ystyrlon. Ei nod yw gwella cyfranogiad cymunedol a lleihau unigedd cymdeithasol, lleihau'r ddibyniaeth ar ofalwr y teulu a lleihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau statudol.

**Canlyniadau perfformiad:**

**93** Mae 93 o bobl wedi cael cymorth.

**22** Sefydlwyd 22 o dimau i ddarparu'r cymorth hwn.

**20** Mae 20 tîm wedi adrodd eu bod wedi gweld newid cadarnhaol i'w cleientiaid.

**Dyfyniad:**

*"Mi wnes i fwynhau pobi a threulio amser gyda'r gweithiwr cymorth; dydw i ddim eisiau rhoi'r gorau i bobi. Roedd y nodau'n bwysig i mi ac fe ddysgais i gerdded i'r safle bws o'm cartref. Roedd y gefnogaeth ges i yn ardderchog."*

REFENIW

# Gogledd Cymru: Gwasanaeth Ad-drefnu ac Atal

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £477,650

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu ac ymyriadau therapiwtig i atal gofalwyr rhag diffygio ac yn mynd i'r afael â materion iechyd, eu perthynas personol â phobl a chyraeddiadau addysgol a wynebir yn aml gan bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys darparu atebion i atal teuluoedd rhag chwalu a/neu ddwysáu'r angen gan arwain at risg o leoliad y tu allan i'r sir. Mae hefyd yn golygu cynyddu capasiti maethu i ddarparu seibiant i deuluoedd ac adsefydlu a chymorth therapiwtig.

**Canlyniadau perfformiad:**

**101** 101 o bobl yn cael cymorth uniongyrchol ynghyd â brodyr a chwiorydd, rhieni a gofalwyr rhaglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer gofalwyr maeth newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

**100%** Dywedodd 100% o'r achosion a oedd wedi eu cau fod y gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol gyda gwelliannau sylweddol o ran ymddygiad ac wedi dangos effaith gadarnhaol ar les cymdeithasol ac emosiynol.

**Dyfyniad:**

*"Roedd y therapydd teuluol yn ganolog i sicrhau y byddai ein bachgen yn rheoli'r newid i fyw yng Nghymru. Roedd hi'n chwa o awyr iach ac yn datblygu perthynas mor gryf gyda ni a'n bachgen. Cyflwynodd ddirnadaeth fawr o'i anghenion ar adeg pan oedd angen y cadarnhad a'r gefnogaeth arnom. Roedden ni am fanteisio ar y cyfle hwn i roi gwybod i chi ein bod wedi gwerthfawrogi eich cefnogaeth anhygoel ac y byddwn yn cofio amdano am byth."*

# Powys:
# Ar Gyrion Gofal

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Plant ar gyrion gofal/mewn perygl o dderbyn gofal

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £610,000

**Disgrifiad:**

Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu plant i barhau i fyw gyda'u teuluoedd lle mae er eu budd pennaf ac yn ddiogel iddynt wneud hynny. Mae'n darparu cymorth dwys i sefydlogi teuluoedd a lleihau'r angen i blant a phobl ifanc ddechrau derbyn gofal. Os oes angen i blant ddod i ofal, bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd fel y gallant ddychwelyd adref yn gyflym ac yn ddiogel.

Gweithiodd y tîm gyda theulu lle cafodd tad i ddau fab ei daro'n ddifrifol wael yn annisgwyl. Sefydlodd y tîm ymyriad i gefnogi neiniau a theidiau (a oedd yn byw yng Ngogledd Lloegr) i ofalu am eu hwyrion yng Nghaerdydd, er mwyn caniatáu i'r bechgyn fod yn agos at eu tad tra'i fod yn yr ysbyty. Gydag iechyd y tad yn gwella a neiniau a theidiau angen dychwelyd i'w cartref, roedd angen trosglwyddo'r bechgyn i ofal maeth. Parhaodd gweithwyr i gadw mewn cysylltiad â'r bechgyn a'u hunig ddymuniad oedd dychwelyd adref gyda'u tad. Pan ryddhawyd y tad i fynd adref, dechreuodd y gwaith o fynd gyda'r bechgyn i dreulio amser yng nghartref y teulu a chynyddu hynny hyd nes eu bod yn aros dros nos. Mae'r bechgyn bellach gartref yn llawn amser gyda'u tad. Mae'r tîm yn parhau i ymweld â'r teulu, yn cadw golwg ar sut mae pethau, ac maent wedi cefnogi'r tîm gwaith cymdeithasol yn eu hadroddiadau llys lle mae'r cyngor yn teimlo y dylai cyfrifoldeb rhiant gael ei ddychwelyd yn llawn i'r tad.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **278** | Atgyfeiriwyd 278 o blant at y gwasanaeth. |
| **77%** | Dangosodd 77% o deuluoedd gynnydd cadarnhaol yn ystod yr ymyriad terfynol. |
| **4** | o blant wedi'u haduno gyda'u teuluoedd. |
| **90%** | Mae 90% o'r plant y cyfeirir atynt ar gyrion gwasanaethau gofal wedi aros gartref. |

**Dyfyniad:**

*"Roeddwn i'n teimlo y gallwn i siarad â Mel (Gweithiwr Ar Gyrion Gofal) ac ymddiried ynddi gyda'r hyn oedd gen i i'w ddweud. Roeddwn i'n teimlo y gallai uniaethu â'm sefyllfa a'm perthynas â fy nheulu. Doeddwn i ddim yn teimlo ei bod yn dweud wrtha i beth i'w wneud ond yn fy helpu i ddod o hyd i ateb fel y gallwn weithio ar fy mhroblemau tymer. Doeddwn i byth yn teimlo fy mod i'n cael fy meirniadu, roedd yn gwneud i mi sylweddoli sut roeddwn i'n effeithio ar fy nheulu a sut gallwn i wella pethau."*
– Defnyddiwr Gwasanaeth."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys:
# Cysylltu Bywydau

## Pobl ag Anawsterau Dysgu

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £30,000

**Disgrifiad:**

Mae Cysylltu Bywydau Powys yn rhoi cymorth i oedolion sy'n agored i niwed ac yn eu helpu i ddewis gyda phwy maen nhw'n byw, ble maen nhw'n byw a sut maen nhw'n treulio'u hamser. Mae'n helpu i drefnu bod pobl, y gallai fod angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt, yn cael seibiannau byr neu'n cael byw yn hirdymor yng nghartrefi pobl sydd wedi'u dewis a'u hyfforddi'n ofalus, a elwir yn Ofalwyr Cysylltu Bywydau.

Pan gyfarfu'r tîm â Sally am y tro cyntaf roedd hi'n byw yn ei fflat ei hun a dywedodd ei bod yn ei chael hi'n anodd ac yn teimlo'n unig. Byddai Sally yn aml yn galw'r gwasanaethau brys ac nid oedd yn teimlo'n ddiogel yn ei chartref ei hun. Byddai'n colli prydau bwyd, ni fyddai'n yfed digon o ddŵr ac roedd hi'n cysgu yn ystod y dydd. Dibynnai Sally ar ei ffon gerdded wrth fynd allan am ei bod yn ddihyder. Gyda chymorth ei gweithiwr cymdeithasol, creodd y tîm broffil o Sally a rannwyd gyda gofalwyr Cysylltu Bywydau yn y gobaith o fedru paru.... a digwyddodd hynny! Ar y dechrau, roedd Sally yn pryderu'n fawr am fyw gyda phobl eraill. Roedd hi wedi byw ar ei phen ei hun ers 14 o flynyddoedd ac roedd yn poeni na fyddai'n teimlo fel 'cartref'. Cafodd Sally sawl cyflwyniad i'w gofalwyr Cysylltu Bywydau, gan dreulio awr gyda nhw i ddechrau, gan gynyddu hynny'n raddol nes ei bod yn aros dros nos. Mae Sally wedi cyflawni llawer iawn mewn cyn lleied o amser.

**Canlyniadau perfformiad:**

**26** o ofalwyr cymeradwy

**18** o drefniadau hirdymor ar waith

**Dyfyniad:**

*"Dwi'n teimlo'n hyderus ac yn ddiogel bellach a does dim angen cysur fy ffon gerdded arna i. Dwi'n teimlo'n fwy heini, yn iachach ac wedi colli pwysau oherwydd fy ffordd newydd egnïol o fyw. Dydw i ddim yn teimlo'n unig bellach."*
– Sally

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys: Gofal a Alluogir gan Dechnoleg

## Pobl Hŷn

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £100,000

**Disgrifiad:**

Mae gwasanaeth Gofal a Alluogir gan Dechnoleg Powys yn darparu atebion effeithiol i gleifion â chyflyrau hirdymor sy'n gyfleus, yn hygyrch ac yn gost-effeithiol iawn. Mae'r atebion yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn cymryd rhan yn eu gofal iechyd eu hunain ac yn ei reoli; gan eu grymuso i reoli eu gofal mewn ffordd sy'n iawn iddyn nhw. Mae Powys wedi cofleidio dyfeisiau sy'n caniatáu i bobl gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd fel diffodd goleuadau pan nad ydynt yn gallu symud rhyw lawer. Drwy'r gwasanaeth hwn, gall cannoedd o gleifion ar draws y sir barhau'n annibynnol a pharhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Gellir gweld ffilm fer ar y gwasanaeth yma: www.youtube.com/watch?v=KJ350uHTC2k

Cynhyrchwyd cyfres o animeiddiadau byr yn seiliedig ar astudiaethau achos go iawn hefyd i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, gyda phobl yn ei wylio dros 1,000 o weithiau www.en.powys.gov.uk/article/1534/Get-help-at-home-with-daily-living

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **510** | Roedd 510 o unigolion wedi derbyn 1,117 eitem o dechnoleg drwy 680 o bresgripsiynau. |
| **£420,000** | Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost osgoi i ofal cymdeithasol yn £420,000. |

**Dyfyniad:**

*"Mae system Gofal Canary wedi bod yn fendith. Rydyn ni'n ei ddefnyddio bob dydd, ac mae'n werth ei bwysau mewn aur! Gallwn gymryd diwrnod neu ddau i ffwrdd o bryd i'w gilydd, a heb boeni – mae hynny'n werth y byd i ni."*
– Family member of service user

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Morgannwg: Cymorth Rhanbarthol i Gartrefi Gofal

## Yn Mynd â Gofal i'r Lefel Nesaf

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £82,437

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar y Llwybr Bagiau Coch, sy'n cefnogi cartrefi gofal, gwasanaethau ambiwlans ac ysbytai i fodloni Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Mae bag coch yn trosglwyddo gwaith papur safonol, meddyginiaeth ac eiddo personol. Mae'n aros gyda'r preswylydd drwy gydol ei arhosiad ac yn dychwelyd adref gydag ef neu hi. Mae'r gwaith papur safonol yn sicrhau bod gan bawb sy'n ymwneud â gofal y preswylydd wybodaeth angenrheidiol am ei iechyd cyffredinol e.e. gwybodaeth sylfaenol, pryderon cyfredol, gwybodaeth gymdeithasol a meddyginiaeth. Pan gaiff ei ryddhau, mae'r cartref gofal yn cael crynodeb rhyddhau gyda'r feddyginiaeth yn y bag coch.

**Canlyniadau perfformiad:**

**425** o Fagiau Coch wedi'u prynu.

**72** Mae pob un o'r 72 cartref preswyl a nyrsio yn ardal Bwrdd Iechyd Bae Abertawe yn ymwneud â'r prosiect gyda rhyw 290 o Fagiau Coch wedi eu dosbarthu.

**66%** Roedd 66% o gartrefi gofal yn cytuno bod y defnydd o'r Bag Coch a dogfennau wedi gwella cyfathrebu cyffredinol â'r staff ambiwlans.

**Dyfyniad:**

***"Roedd defnyddio'r Bagiau Coch yn golygu ein bod wedi cael popeth yn barod yn haws ac yn gyflymach, felly roedden ni'n gallu rhoi'r sylw angenrheidiol i'r preswylwyr sâl iawn wrth aros am yr ambiwlans.***
*– Dirprwy Reolwr, Cartref Nyrsio, Abertawe."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Morgannwg: Gweithio Gyda'n Gilydd

## Plant ar Gyrion Gofal

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £1,200,000

**Disgrifiad:**

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn fenter sydd wedi'i lleoli yng Ngorllewin Morgannwg sydd wedi'i chynllunio i gryfhau'r cynnig o gymorth i deuluoedd sy'n agored i niwed sydd â phroblemau cymhleth, a lle mae perygl y gallai plentyn neu blant gael eu rhoi mewn gofal. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar newid patrymau meddwl ac adeiladu perthynas deuluol gadarnhaol a chydnerth. Ei nod yn y pen draw yw rhoi'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny o dan amodau sy'n ddiogel, nad ydynt yn cael effaith negyddol ar eu lles, ac yn caniatáu iddynt ddatblygu i'w llawn botensial.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| 190 | o atgyfeiriadau. |
| 66 | o deuluoedd yn cael cymorth. |
| 161 | Mae 161 o blant wedi gallu aros gartref gyda'u teuluoedd. |

**Dyfyniad:**

*"Byddem yn dweud bod *** wedi bod yn bleser gweithio gydag ef, mae wedi gwneud i ni chwerthin, crio gan helpu i'n tynnu ni nôl gyda'n gilydd fel teulu. Byddwn bob amser yn ddiolchgar iddo ."*

REFENIW

# Gorllewin Morgannwg: Mudiad Awtistiaeth Abertawe

## Plant ag Anghenion Cymhleth/Gofalwyr

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £18,000

**Disgrifiad:**

Mae Mudiad Awtistiaeth Abertawe CiC (SAM) yn brosiect cymheiriaid yn helpu'i gilydd ac yn cynnwys tua 375 o rieni-ofalwyr sydd â phlant a phobl ifanc ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD).

Nod y cynllun yw cysylltu teuluoedd drwy weithgareddau hwyliog, gan ddarparu cyswllt rheolaidd â chymheiriaid sy'n wynebu heriau tebyg. Mae rhannu profiad ac arbenigedd cymheiriaid yn arbennig o werthfawr i deuluoedd newydd, sy'n aml yn dod i delerau â'r broses asesu a diagnosis o ASD ac i deuluoedd sy'n profi cyfnodau pontio yn eu gwasanaethau. Drwy ddull cyfannol, mae SAM yn cefnogi'r gymuned awtistiaeth i gadw'n actif, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a chefnogi iechyd meddwl a chorfforol pawb yn yr hirdymor. Mae cysylltiadau'n cael eu gwneud â darparwyr gweithgareddau arbenigol, busnesau lleol a grwpiau awtistiaeth lleol eraill i roi cymorth i rieni a gofalwyr.

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| 1338 | o bobl wedi cael cymorth. |
| 91% | Dysogodd 91% o'r cyfranogwyr sgil cyfathrebu newydd sy'n gysylltiedig ag ASD h.y. cyswllt llygaid, dweud helo, dechrau sgwrs, rhyngweithio am fwy o amser. |
| 75% | Cafodd 75% o'r cyfranogwyr hwyl, gan adael yn hapus, wedi cael seibiant o'r straen o ddydd i ddydd o ddelio ag anghenion ychwanegol. |
| 100% | Nododd 100% o rieni/gofalwyr welliant mewn ymdeimlad o les a'u bod yn gallu rheoli eu rôl ofalu yn well yn dilyn y sesiynau. |

**Dyfyniad:**

*"Mae SAM yn rhoi lle diogel i'n teulu wneud gweithgareddau na fyddai neb yn rhoi cynnig arnyn nhw fel arall. Mae fy mab yn edrych ymlaen yn arbennig at ein gwyliau blynyddol yn Llangrannog. Mae wedi gwneud ffrindiau am oes yma ac mae'n rhagori mewn hyder ar ôl gwneud y gweithgareddau. Roeddem ni mor hapus pan fuodd e'n merlota, doedd fy mab erioed wedi rhoi mwythau i unrhyw anifail ers dros flwyddyn cyn gwneud hyn, gan fod ganddo ffobia germau. Rydyn ni i gyd mor ddiolchgar i fod yn rhan o deulu SAM a fydden ni ddim lle'r ydyn ni heddiw hebddyn nhw."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru: Cynllun Lleoli Dros Dro

## Pobl Hŷn

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £95,005

**Disgrifiad:**

Gan weithio ar draws y sector preifat a statudol, mae'r cynllun yn prynu gwelyau dros dro am uchafswm o 6 wythnos.

Mae'r lleoliad tymor byr hwn yn galluogi asesiad amserol mewn lleoliad priodol gan sicrhau bod cynlluniau gofal hirdymor yn diwallu anghenion cleifion.

Mae'r cynllun yn cefnogi osgoi derbyniadau i'r ysbyty, rhyddhau diogel o'r ysbyty a lleoli'n brydlon gleifion lliniarol lle nad yw gofal yn eu cartref eu hunain yn briodol.

**Canlyniadau perfformiad:**

**76** Derbyniwyd 76 o bobl i'r cynllun yn ystod 2019–20.

**47%** wedi osgoi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty.

**53%** Hwyluswyd rhyddhau yn ddiogel 53% o gleifion o Ysbytai Cyffredinol Bronglais a Glangwili.

**81** Cafodd 81 o bobl eu rhyddhau o'r cynllun yn ystod y flwyddyn.

**Dyfyniad:**

*"Roeddwn i yn yr ysbyty, yn poeni am fynd adref, doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn i ymdopi. Pan gynigiwyd Gwely Dros Dro i mi roedd yn gam esmwyth. Pan ddes i yma, sylweddolais mai dyma fyddai'r lle gorau i mi fyw. Dwi mor hapus gyda'r staff a'r cymorth dwi'n ei gael."*
– Defnyddiwr Gwasanaeth"

REFENIW

# Gorllewin Cymru: Gweithredu Siarter Anabledd Dysgu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pobl ag Anableddau Dysgu

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** **£257,981**

**Disgrifiad:**

Mae pobl ag anableddau dysgu eisiau'r un pethau â phawb arall. Mae Siarter Anableddau Dysgu Gorllewin Cymru, a grëwyd gan bobl sy'n byw gydag anableddau dysgu, yn helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Mae'r Siarter yn cynnwys rhestr o bethau y mae pobl yn eu disgwyl ac sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau cyflawn. Mae'n amlinellu'r cymorth y mae pobl ei eisiau a sut yr hoffent gael eu trin. Mae'n canolbwyntio'n gryf ar wella gwelededd a gweithrediad hawliau ac anghenion pobl ag anableddau dysgu a gwella mynediad at amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau iechyd a thrafnidiaeth, cyflogaeth, addysg bellach a chyfleoedd hamdden.

Yn ystod 2019-20, mae'r "Dream Team", grŵp o bobl ag anableddau dysgu sy'n cynghori amrywiaeth o bartneriaid ar draws y rhanbarth am yr hyn sy'n wirioneddol bwysig iddynt, ochr yn ochr ag eraill, wedi parhau i gyd-gynhyrchu gweithgareddau mewn ymateb i'r Siarter. Gellir gweld ffilm fer am y Siarter yma: www.youtube.com/watch?v=C4Sh2Zcb_kU&feature=youtu.be https://youtu.be/05tiTmLLF0I

**Canlyniadau perfformiad:**

| | |
|---|---|
| **Enillydd** | Gwobr Grymuso a Chyd-gynhyrchu GIG Cymru. |
| **4** | Recriwtiwyd 4 o hyrwyddwyr anableddau dysgu. |
| **22** | o bobl yn cael cymorth i gael gwaith cyflogedig. |
| **300** | Mae 300 o unigolion neu sefydliadau yn cyfrannu tuag at gyd-gynhyrchu gwasanaethau ar draws y rhanbarth. |
| **35** | Mae 35 o bobl yn cymryd rhan mewn proses i nodi a chyd-gynllunio ymateb i faterion sy'n ymwneud â heneiddio i bobl ag anableddau dysgu. |

**Dyfyniad:**

*"Mae bod yn rhan o'r Tîm yn gwneud i mi deimlo bod gen i lais i wella pethau i bobl ag anableddau dysgu. Rydyn ni eisiau'r un pethau â phawb arall; mae angen i ni gael help mewn ffordd wahanol. Mae dod yn aelod o'r Tîm wedi rhoi mwy o hyder i mi. Nawr dwi'n falch iawn o gynrychioli pobl ag anableddau dysgu ac eisiau helpu eraill fel fi i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw heb gael eu trin fel plant bach, gan ddangos i bobl fel meddygon sut i siarad â ni gan ddefnyddio iaith rydyn ni'n ei deall, felly rydyn ni'n gwybod yn union am beth maen nhw'n siarad ac yn gallu ymuno yn y sgwrs."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru: Gwasanaeth Ailalluogi Llwybr Gofal Canolraddol Sir Benfro

## Pobl Hŷn

**Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig:** £70,440

**Disgrifiad:**

Mae Llwybr Gofal Canolraddol Sir Benfro yn cynnwys nifer o brosiectau gofal canolraddol arloesol sy'n galluogi pobl i gael gofal yn eu cymuned. Mae hyn yn helpu i leihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty, yn cefnogi trosglwyddo adref yn amserol drwy wasanaeth integredig, ymatebol a llwybr gofal canolraddol cydgysylltiedig a hefyd yn cynnal annibyniaeth gartref ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal hirdymor. Yn gynwysedig yn y llwybr mae'r gwasanaeth ail-alluogi, sy'n anelu at gynnal annibyniaeth pobl yn eu cartref eu hunain neu sy'n cefnogi rhyddhau'n ddiogel ac yn amserol o leoliadau acíwt drwy ymyriadau ail-alluogi wedi'u targedu.

**Canlyniadau perfformiad:**

- **273** o atgyfeiriadau.
- **267** Wedi gweithio gyda 267 o gleientiaid.
- **84** Wedi cwblhau 84 o asesiadau integredig.
- **123** Wedi cwblhau 123 achos o ail-alluogi.
- **102** yn gadael heb unrhyw ofyniad am ofal hirdymor.
- **20** yn gadael gyda phecyn o ofal hirdymor.

**Dyfyniad:**

*"Diolch yn fawr i'r tîm ail-alluogi, yn enwedig A a J. Gydag anogaeth a chefnogaeth eich tîm mae Mrs A wedi gwella'n dda o'i chwymp. Roedd yr holl ofalwyr yn gwrtais, yn ddymunol ac yn gefnogol ac roedd y cyfathrebu rhwng y tîm a'r teulu'n effeithiol iawn. Mae'r gwasanaeth yn berffaith ac yn gwneud yn union yr hyn y mae'n ei ddweud gan 'ail-alluogi' pobl i adennill annibyniaeth."*

CYFALAF

# Caerdydd a'r Fro:
# Ty Dewi Sant (Prosiect Pobl Hŷn/Pobl â Dementia)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:** **Cyfanswm £445,000** (£227,500 yn 2018/19 a 2019/20)

**Disgrifiad:**

Mae cartref preswyl Tŷ Dewi Sant ym Mhenarth yn darparu gofal i grŵp o 29 o bobl gydag anghenion cymysg, oedrannus bregus a dementia ac fe'i cynlluniwyd yng nghanol y ganrif ddiwethaf. Roedd ei amgylchedd ffisegol yn adlewyrchu'r oes honno ac yn gwaethygu'r heriau a wynebai pobl hŷn a oedd yn profi nam ar eu cof, eu dysgu a'u rhesymu, ynghyd â namau synhwyraidd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, uchelgais y rhanbarth oedd creu amgylchedd sy'n rhoi ystyriaeth i ddementia gydag unedau byw cartrefol ar raddfa fach, gan ddefnyddio arwyddion da/'ciwio' yn unol â safonau 'sy'n ystyriol o ddementia'.

Roedd y gwaith a gwblhawyd yn cynnwys adnewyddu ystafelloedd gwely, toiledau a choridorau, eu hailaddurno â phalet tawel o liwiau niwtral gan amlygu drysau, canllawiau a mynedfeydd toiled er mwyn ei gwneud hi'n haws dod o hyd iddyn nhw. Mae'r lloriau hefyd wedi'u diweddaru er mwyn ei gwneud yn haws i bobl â Dementia symud a hwyluso eu cyfeiriadedd. Cwblhawyd yr ail-ddylunio gyda chyfres o ffotograffau a gomisiynwyd yn arbennig o'r ardal leol a ddewiswyd gan y trigolion. Y canlyniad cyffredinol yw creu amgylchedd â phopeth yn ei le, yn lân a modern sy'n cefnogi ac yn cynnal lles ac annibyniaeth ein trigolion.

**Allbynnau:**

- Mae'r gwaith adnewyddu wedi galluogi Tŷ Dewi Sant i greu 3 uned fyw ar raddfa fach ar wahân ar gyfer y preswylwyr presennol, sydd i gyd bellach yn ystyriol o ddementia o ran eu haddurn a'u cynllun.
- Mae'r datblygiad hwn yn gam cychwynnol mewn cynllun ehangach i greu amrywiaeth o opsiynau llety ar gyfer Pobl Hŷn o fewn un safle. Ar ôl cwblhau'r cynllun cyfan, rhagwelir mai Tŷ Dewi Sant fydd y cyfleuster henoed bregus eu meddwl (EMI) dynodedig.
- Mwy o les i drigolion Tŷ Dewi Sant o ganlyniad i'r amgylchedd gwell - mae'r cyfuniad o welliannau wedi annog y trigolion i ddefnyddio'r gofod yn fwy annibynnol ac egnïol, ac mae hefyd wedi newid holl naws yr adeilad.
- Gostyngiad yn y risg o godwm oherwydd y gwelliannau i'r lloriau a'r lliwiau a ddewiswyd.

**Dyfyniad:**

Mae'r gwaith wedi trawsnewid Tŷ Dewi Sant a bu'n arbennig o braf clywed yn uniongyrchol gan drigolion a staff faint o wahaniaeth y mae'r gwaith adnewyddu wedi'i wneud. Mae timau'r prosiect wedi gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyllidebau sydd ar gael ac wedi bod yn greadigol ac yn arloesol yn eu dull gweithredu fel y dangosir gan y defnydd o liw a gwaith celf yn y coridorau a'r mannau cymunedol.

**"Doeddwn i ddim yn hoffi gorfod gadael fy ystafell cyhyd ond roedd y cyfan yn werth chweil, mae'n hardd iawn ac yn llawer haws symud o gwmpas".**
**"Pan fydda i'n mynd ar goll rwy'n chwilio am lun Pier Penarth ac rwy'n gwybod ble ydw i".**

CYFALAF

# Cwm Taf Morgannwg: Pen Llew Court (Llety Byw â Chymorth i Bobl ag Anawsterau Dysgu)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £1,037,943

**(£497,944 yn 2018/19 a £540,000 yn 2019/20)**

**Disgrifiad:**

Mae prosiect Byw â Chymorth Pen Llew Court yn gynllun sy'n cynnig cyfle i bobl ag anableddau dysgu fyw'n annibynnol mewn fflatiau wedi'u haddasu'n llawn gyda gofal a chymorth ar y safle 24 awr y dydd.

Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i unigolion symud ymlaen (cam i lawr) o lety byw â chymorth mwy traddodiadol. Nod y cymorth a ddarperir yw datblygu eu sgiliau annibyniaeth ymhellach, yn y gobaith y gallant symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol yn y pen draw, ond gan ddatblygu eu sgiliau mewn amgylchedd cefnogol. Mae'r pecynnau gofal a chymorth yn cynnig dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Mae'n rhoi perchnogaeth i unigolion dros eu hanghenion cymorth, a all leihau dros gyfnod o amser, wrth i'w hannibyniaeth gynyddu.

Mae cyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi'r canlynol:

- Trawsnewid ac ad-drefnu adeilad Pen Llew Court.
- Gosod system Tunstall glyfar sy'n caniatáu i'r bobl a gynorthwyir gyfathrebu â'i gilydd a staff drwy ffôn fideo.
- Creu ystafell Gweithgareddau Cymunedol, ar gyfer gwasanaethau dydd ac fel y gall cleientiaid a grwpiau allanol ymgymryd â gweithgareddau a grwpiau dyddiol ac wythnosol, yn y gobaith y byddant yn cynnwys clybiau cyflogaeth a grwpiau gwirfoddol.
- Creu cegin addysgu sgiliau, lle gellir cefnogi pobl i ddysgu a dod yn fedrus wrth wneud eu prydau bwyd eu hunain ac yn wybodus am faeth, er mwyn eu hannog i fyw'n fwy annibynnol.
- Creu ystafell Haul, at ddibenion cymdeithasu, ardal i ymgynnull e.e. a gwylio'r teledu gyda'i gilydd, cynnal digwyddiadau cymdeithasol a hyrwyddo cyfeillgarwch a lles ac annog datblygiad rhwydweithiau cymdeithasol.

**Allbynnau:**

- Adnewyddu Pen Llew Court yn 19 o fflatiau byw â chymorth.
- Lleihau unigedd a hybu iechyd a lles unigolion.
- Cynyddu byw'n annibynnol drwy gymorth wedi'i dargedu.
- Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a werthfawrogir.
- Hyrwyddo annibyniaeth a dewis sy'n rhoi pobl yn y canol ac yn symud tuag at gymuned integredig.
- Lle'r oedden nhw wedi'u hynysu'n flaenorol, maen nhw'n dechrau meithrin perthynas gadarnhaol â chyfoedion mewn amgylchedd diogel.
- Mwy o hyder a hunan-barch gan arwain at fwy o gymhelliant/cyfranogiad.

**Dyfyniad:**

**"Rydw i wrth fy modd yn cael fy ffrindiau o'm cwmpas os ydw i eisiau eu gweld, ond rydw i hefyd yn hoffi cael fy lle fy hun i fynd yn ôl iddo pan fydda i wedi cael digon."**

**"Mae symud i Ben Llew Court wedi fy ngalluogi i feithrin perthynas well gyda'm teulu."**

CYFALAF

# Gwent:
# Fy Nhîm Cymorth (MyST) (Plant ag Anghenion Cymhleth)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £650,000

**Disgrifiad:**

Mae fy Nhîm Cymorth (MyST) yn wasanaeth arbenigol sy'n dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd. Diben MyST yw lleihau'r angen i ddod o hyd i leoliadau argyfwng a chynyddu'r gallu i reoli a chynnal plant sydd wedi dioddef amryw o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a heriol yn lleol.

Mae MyST yn wasanaeth cofleidiol dwys iawn sy'n darparu pecyn gofal amgen i bobl ifanc sy'n derbyn gofal a fyddai fel arall mewn gofal preswyl, gofal seiciatrig haen 4, gofal diogel neu ysgolion preswyl arbenigol.

Mae'r Hwb bellach yn gallu darparu dull rhanbarthol cyson ar gyfer plant, teuluoedd a gofalwyr, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Mae'n darparu'r un lefel o hyfforddiant, cymorth, goruchwyliaeth a lefel gyson ac effeithiol o wasanaeth i leihau'r angen am ofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r ardal yng Ngwent.

Mae cyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi'r canlynol

- Diogelu ac adnewyddu cynhwysfawr ac ailfodelu adeilad ysgol wag yn gost-effeithiol yn ganolfan addas i'r diben ar gyfer gwasanaeth MyST, gan gynnwys gwell darpariaeth parcio ceir.
- Nifer o leoedd swyddfa ar gyfer cyd-leoli Fy Nhîm Cymorth (MyST) Torfaen a MyST Blaenau Gwent/Sir Fynwy.
- Clinig/mannau therapiwtig i deuluoedd a phobl ifanc.
- Ystafelloedd hyfforddi, gan gynnwys TG a chegin hyfforddi ac ystafell chwarae ar gyfer sgiliau byw'n annibynnol a datblygiad personol.

**Y canlyniadau a ragwelir:**

- Lleihau'r defnydd o leoliadau drud sy'n aml yn aneffeithiol a/neu y tu allan i'r ardal.
- Lleoliadau sy'n agosach at eu cartrefi ac o fewn rhanbarth Gwent ar gyfer y garfan hon.
- Gwell sefydlogrwydd o ran lleoliadau – Llai o symudiadau a lleoliadau'n chwalu.
- Gwell lles emosiynol i blant o fewn y garfan hon a'u gofalwyr.
- Gofalwyr maeth yn gallu ymdopi'n well ag achosion cymhleth, heriol.
- Isgyfeirio mwy o achosion i ofal maeth yn hytrach na lleoliadau gofal preswyl hirdymor.
- Gwell canlyniadau hirdymor i blant, hyd nes eu bod yn oedolion drwy ddulliau therapiwtig a rheoli risg cyson sy'n seiliedig ar drawma ar draws y system.
- Gwell cynllunio a rheoli costau lleoliadau.

**Dyfyniad:**

"Mae'n teimlo'n fawr iawn ac mae llawer o le i deuluoedd a phlant allu gweld ei gilydd a gweithio drwy eu hanawsterau."

"Mae'n llawer mwy hygyrch nag o'r blaen ac yn ein cymuned."

"Mae'n fy helpu i gael gofod pan fydda i'n teimlo'n orbryderus."

CYFALAF

# Gogledd Cymru: Llety Tîm Adnoddau Cymunedol Gwynedd (Pobl Hŷn ag Anghenion Cymhleth)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £227,854

**(£175,854 in 2018/2019 and £52,000 in 2019/2020)**

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect hwn yn darparu cyfleusterau llety integredig ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol sy'n cynnwys staff iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Mae'r prosiect yn darparu canolfannau addas ar gyfer Timau Adnoddau Cymunedol ar draws y 5 ardal o fewn sir fawr Gwynedd.

Roedd yr arian hwn yn galluogi aelodau'r tîm i gael eu lleoli gyda'i gilydd mewn ardaloedd lleol ac i hwyluso gweithio integredig nid yn unig mewn prif hybiau ond hefyd mewn mannau cwrdd lleol mewn meddygfeydd.

Amcanion cyffredinol y prosiect hwn yw integreiddio, atal, cefnogi gofalwyr a bodloni nodau'r cynllun gweithredu ar ddementia. Cyflwynir y rhain drwy:

- Adnoddau â ffocws a mwy o gapasiti o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol.
- Dull rhagweithiol o ymdrin â gofal a chymorth.
- Ymyriadau ataliol (gan gynnwys gohirio a lleihau'r angen am ofal a chymorth a galluogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl).
- Annog arloesedd.
- Hyrwyddo a manteisio i'r eithaf ar fyw'n annibynnol.
- Gweithio integred.

**Y canlyniadau a ragwelir:**

- Addasu ac adnewyddu'r swyddfa bresennol i ddarparu ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol.
- Y Timau Adnoddau Cymunedol i weithio mewn ffordd integredig.
- Gwell cyfathrebu.
- Hyrwyddo newid diwylliant yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu.

**Dyfyniad:**

**Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr cael y Nyrsys Ardal, Therapyddion Galwedigaethol a Gweithwyr Cymdeithasol i gyd gyda'i gilydd yn yr un ystafell; gallwn ymateb i anghenion ein cleient ar y cyd ac ar unwaith".**

**"Rydych chi'n dda gyda mi. Dwi'n gwybod mod i'n flin pan fydda i'n sâl ac yn isel ond rydych chi'n dda ac yn fy helpu bob amser!"**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Powys: Fan Gorau (Prosiect Pobl Hŷn/Pobl â Dementia/Gofalwyr)

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £262,000

(195,000 yn 2018/19 a £67,000 yn 2019/20

**Disgrifiad:**

Darparwyd gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Drenewydd yn flaenorol ar draws nifer o wahanol safleoedd lle'r oedd yr amgylchedd gweithio a darparu gwasanaethau yn wael.

Nodwyd bod angen dod â thimau at ei gilydd ar un safle er mwyn canoli a chydleoli gwahanol wasanaethau. Roedd gan Fan Gorau, a fu gynt yn ward, y potensial i ddarparu ar gyfer swyddfeydd wedi'u hadnewyddu a lle clinigol newydd a gwell i'r Timau Gwasanaeth Oedolion, Oedolion Hŷn, Dementia yn y Cartref, Datrys Argyfwng a Gwasanaeth Cof.

Mae cyllid cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig wedi galluogi gwaith sy'n cynnwys derbynfa ac ardal aros newydd ynghyd â gofod clinigol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau dydd iechyd meddwl, ystafelloedd tîm iechyd meddwl unigol (4 i 6 o bobl), cyfleuster ystafell gyfarfod, swyddfeydd cymorth gweinyddol, mannau desgiau poeth a chyfleusterau lles.

**Effaith:**

- Adnewyddu Fan Gorau sydd bellach yn darparu lleoliad gwell a chyfleusterau clinigol a therapiwtig ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig, gyda'i gilydd ar un safle.
- Gwell lles emosiynol ac iechyd meddwl i ddefnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i wasanaeth cydgysylltiedig.
- Mae gweithio mewn partneriaeth wedi datblygu rhwng staff byrddau iechyd a staff y cyngor, gan helpu i gyflawni agweddau ar Strategaeth Iechyd a Gofal Powys.
- Gwell cyfleoedd i gydweithredu, dysgu ac integreiddio rhwng timau.
- Profiad mwy diogel, o ansawdd uchel i gleifion a gofalwyr.

**Dyfyniad:**

**"Mae'r prosiect wedi caniatáu cydweithio agosach ar draws y gwasanaeth cyfan sydd wedi golygu bod modd i'r cleientiaid dderbyn eu gofal mewn modd di-dor, amserol ac effeithiol, gan helpu eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl."**

CYFALAF

# Gorllewin Morgannwg: Prosiect Cartrefi Iach Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin (Pobl hŷn, pobl ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor gan gynnwys dementia a'u Gofalwyr)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £100,000

**Disgrifiad:**

Darparodd Prosiect Cartrefi Iach Bae'r Gorllewin Gofal a Thrwsio atebion cyflym i addasu ac atgyweirio tai er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol a gwella lles pobl hŷn ledled y rhanbarth.

Darparodd y Prosiect atebion ymarferol er mwyn gwella a gwneud amgylchedd y cartref yn ddiogel. Fe wnaeth ymyrraeth a mesurau ataliol helpu i sicrhau bod modd osgoi anafiadau damweiniol neu les gwael a all arwain at orfod mynd i'r ysbyty, gofal hirdymor neu ddibyniaeth ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol statudol.

Ar gyfer yr holl gleientiaid a atgyfeiriwyd am gymorth, cwblhaodd y Gweithiwr Achos Gofal a Thrwsio y canlynol:

- Archwiliad Cartrefi Iach o gyflwr yr eiddo ac asesiad risg amgylcheddol yn y cartref a'r tu allan iddo er mwyn nodi peryglon posibl.
- Asesiad Risg Cwympiadau (FRAT) gan ddefnyddio fframwaith asesu safonol
- Asesiad Aseswr Dibynadwy a fyddai'n nodi'r angen am gymhorthion ac addasiadau ar raddfa fach.
- Asesiad ariannol a fydd yn sicrhau'r budd lles llawn mwyaf posibl a gwiriad cymhwysedd ar gyfer amrywiaeth o grantiau statudol a chyllid elusennol.

**Canlyniadau:**

- Rhoddwyd cymorth i 261 o bobl hŷn a phobl hŷn ag anghenion eiddilwch neu ddementia gydag amrywiaeth o fesurau ataliol atgyweirio ac addasu cartrefi.
- Darparwyd 4 ymyriad i helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty'n brydlon.
- Arbedwyd 24 diwrnod gwely gydag arbedion cost cysylltiedig o £9,072.
- Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd o'r atgyfeiriad i gwblhau oedd 18 diwrnod gwaith.
- Roedd 89% o gleientiaid yn fodlon ar y gwasanaeth.
- Dywedodd 96% o gleientiaid fod eu hannibyniaeth wedi gwella.
- Cafodd 83% o gleientiaid y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt.

**Dyfyniad:**

"Roedd yr help, yr arweiniad, y cyngor a'r gefnogaeth a gawsom gan Gofal a Thrwsio ar adeg pan oedden ni'n ei chael hi'n anodd iawn ymdopi yn amhrisiadwy. Diolch am eich empathi ac am sicrhau fy mod yn gallu aros mor annibynnol ag y gallaf cyhyd ag y gallaf.

"Mae fy ngŵr yn 95 oed a fi yw ei ofalwr. Dwi'n 93. Dwi mor hapus bod modd iddo aros gartref nawr ar ôl yr holl gymorth rydych wedi'i roi i ni a'r gwaith rydych wedi'i gwblhau. Doeddwn i byth yn meddwl y byddai'r holl bethau bach yn gwneud cymaint o wahaniaeth i ni. Mae'r ddau ohonon ni gymaint yn fwy cyfforddus a hapus gartref nawr."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gorllewin Cymru: Prosiect Byw â Chymorth Green Acres (Anableddau Dysgu)

**Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig:**

## Cyfanswm £375,000

**Disgrifiad:**

Mae'r prosiect hwn wedi gweld eiddo yn cael ei ailddatblygu i ddarparu llety i 4 unigolyn sy'n camu i lawr o ofal preswyl. Nod y prosiect oedd gwella annibyniaeth a chanlyniadau lles i unigolion, drwy gynnig llety yn nes at deulu a ffrindiau ac osgoi lleoliadau y tu allan i'r rhanbarth. Mae anghenion yr unigolion yn sylweddol gyda phob un angen cymorth 24/7 gan gynnwys, o leiaf i ddechrau, cymorth rhywun yn effro ac yn cysgu i mewn yn y nos.

Gan weithio gyda Chymdeithas Tai, daethpwyd o hyd i eiddo a allai ddiwallu'r anghenion penodol unigol o fewn model byw â chymorth. Drwy'r cyllid cyfalaf, ailwampiwyd yr eiddo i ddarparu llety addas i'r unigolion gan gynnwys eu hystafelloedd gwely eu hunain, ystafelloedd ymolchi wedi'u haddasu, cegin ac ardal fwyta yn ogystal â llety i staff. Roedd y gwaith adnewyddu hefyd yn cynnwys systemau gwresogi a chwistrellu newydd ac mae'r paneli PV a oedd yno'n barod wedi'u cadw i gynorthwyo gyda biliau ynni.

Anogwyd y tenantiaid i fod yn rhan o'r gwaith o addurno a sefydlu eu cartrefi newydd, yn enwedig wrth bersonoli'r ardaloedd byw a'u hystafelloedd eu hunain.

**Allbynnau a Chanlyniadau a Ragwelir:**

- Eiddo wedi'i ailddatblygu i ddarparu 4 tenantiaeth i bobl ag anableddau dysgu.
- Mwy o ddewis a chyfle i unigolion yn eu cymuned leol.
- Sicrhau nad oedd unrhyw leoliadau y tu allan i'r sir.
- Cynnal grŵp cyfeillgarwch a pherthnasoedd â theulu.
- Mwy o gyfleoedd i hyrwyddo dewis ac annibyniaeth.
- Bydd amgylchedd newydd yn gwella lles unigolion ac yn arwain at leihad yn eu hanghenion cymorth

**Dyfyniad:**

**"Ystyriwyd anghenion cymhleth y pedwar tenant newydd yn gyfannol a rhoddwyd cydnabyddiaeth eu bod yn gadael lleoliad sefydliadol drwy addasu ac adnewyddu'r eiddo yn ystyriol i greu cartref newydd gwych i ddiwallu eu hanghenion byw â chymorth."**